Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Rhondda Cynon Taf

Adolygiad o'r cynnydd gyferbyn â Safonau Gofal Iechyd Cymru – 1 Ebrill 2006 – 31 Mawrth 2007

Dyddiad: **Hydref 2007**

Cynnwys

		Rhif Tudalen
1.	**Cyflwyniad a Chyd-destun**	**1**
2.	**Proses Asesu 2006-07**	**5**
3.	**Trosolwg ar Fwrdd Iechyd Lleol Addysgu Rhondda Cynon Taf**	**9**
4.	**Canfyddiadau**	
	▪ Profiad y claf	**11**
	▪ Canlyniadau Clinigol	**25**
	▪ Llywodraethu Gofal Iechyd	**29**
	▪ Iechyd y Cyhoedd	**48**
5.	**Y Camau Nesaf**	**52**
	Atodiadau	
	Atodiad 1: Diffiniadau o'r Lefelau Aeddfedrwydd	**53**
	Atodiad 2: Crynodeb o'r Lefelau Aeddfedrwydd fesul Safon	**54**
	Atodiad 3: Crynodeb o'r Aeddfedrwydd ar y Lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr	**61**
	Atodiad 4: Rhestr Termau	**63**

1. Cyflwyniad a Chyd-destun

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith a wnaed gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu hunanasesiad 2006-2007 Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu (BILlA) Rhondda Cynon Taf o'i berfformiad gyferbyn â *Safonau Gofal Iechyd Cymru*.

Y Safonau

1.2. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Safonau Gofal Iechyd Cymru* ym Mai 2005 a daeth y Safonau i rym ar 1 Mehefin 2005. Roedd y rhain yn pennu fframwaith cyffredin o safonau gofal iechyd i gefnogi ymdrechion y GIG a'r sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol a phrydlon o ansawdd uchel ar draws yr holl leoliadau gofal iechyd.

1.3. Mae'r Safonau Gofal Iechyd wedi eu cynllunio, yn gyntaf ac yn bennaf, er mwyn cyrraedd y lefelau uwch o ofal a thriniaeth y mae gan bobl Cymru yr hawl i'w disgwyl yn rhesymol, a thrwy hynny darparu sylfaen y gall cyrff gofal iechyd adeiladu arni, er mwyn bodloni'r disgwyliadau newydd a mwy heriol ar gyfer gofal cleifion, a nodir yn strategaeth 10-mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, *'Cynllun Oes'.* Mynnir bod pob sefydliad gofal iechyd[1] yng Nghymru yn ystyried y safonau wrth ddarparu gofal iechyd a chomisiynu gwasanaethau gofal iechyd, beth bynnag fo'r lleoliad.

1.4. Mae *Safonau Gofal iechyd Cymru* yn rhestru 32 o safonau o fewn pedwar maes. Mae pob un o'r meysydd yn tarddu o werthoedd craidd a ddylai fod yn sail i'r gwaith o gomisiynu yn ogystal â chyflwyno gwasanaethau gofal iechyd, ac y mae pob safon o fewn y maes yn disgrifio'r gwerthoedd a gynrychiolir gan y maes hwnnw.

- Mae'r maes cyntaf *'Profiad y Cleifion'* yn pennu:

[1] Diffinnir sefydliadau gofal iechyd fel y cyrff GIG Cymru, contractwyr annibynnol a sefydliadu ac unigolion eraill, gan gynnwys y sectorau annibynnol a gwirfoddol, sy'n darparu neu'n comisiynu gofal iechyd ar gyfer cleifion unigol, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd.

Bydd y safonau i gefnogi'r broses o ddarparu gofal iechyd mewn partneriaeth â chleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd yn seiliedig ar gynlluniau a phenderfyniadau sy'n parchu anghenion a dewisiadau amrywiol. Bydd y gwasanaethau'n hawdd i'w defnyddio ac yn canolbwyntio ar y claf. Bydd gofal iechyd yn cael ei ddarparu mewn amgylcheddau sy'n hybu lles y cleifion a'r staff ac sy'n parchu anghenion a dewisiadau'r cleifion. Byddant wedi'u llunio i ddarparu triniaeth a gofal yn effeithiol a diogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw a'u glanhau'n dda er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd y cleifion.

- Mae'r ail faes *'Canlyniadau Clinigol'* yn nodi y bydd:

Y penderfyniadau a'r gwasanaethau gofal iechyd yn seiliedig ar yr hyn y mae tystiolaeth gwaith ymchwil a aseswyd yn briodol, yn canfod sydd ei angen er mwyn sicrhau canlyniad effeithiol ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gan ystyried eu hanghenion a'u dewisiadau personol. Bydd cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau mor gyflym â phosibl, ac ni fydd oedi afresymol yn digwydd ar unrhyw adeg yn ystod y broses ddarparu na'u llwybr gofal.

- Mae'r trydydd maes, *'Llywodraethu Gofal Iechyd'* yn egluro:

Bydd gan ddarparwyr a chomisiynwyr gofal iechyd systemau wedi'u sefydlu sy'n cefnogi arweiniad ac atebolrwydd staff clinigol a rheolwyr, ac sy'n canolbwyntio ar anghenion a dewisiadau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Bydd arferion gwaith wedi'u sefydlu i sicrhau bod uniondeb, sicrwydd ansawdd, dulliau gwella ansawdd a diogelwch y cleifion yn rhan annatod o'r holl arferion, prosesau a gweithgareddau.

- Ynglŷn â'r pedwerydd maes *'Iechyd y Cyhoedd'*, dywedir:

Bydd cyrff gofal iechyd yn cydweithredu â chyrff perthnasol eraill a chymunedau lleol i sicrhau bod y rhaglenni a'r gwasanaethau'n cael eu llunio a'u darparu i hyrwyddo, amddiffyn a gwella iechyd, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol.

Sicrhau Cydymffurfiaeth

1.5. O Ebrill 2007 ymlaen, mynnir bod sefydliadau gofal iechyd y GIG yng Nghymru yn asesu eu hunain gyferbyn â'r safonau gofal iechyd ac yn cyhoeddi datganiad cyhoeddus blynyddol ar eu perfformiad.

1.6. Mae gofyn i'r sefydliadau gyflwyno'u datganiad a chanlyniadau eu hunanasesiad yn ffurfiol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, sy'n gyfrifol am gydgysylltu'r gwaith o brofi a dilysu'r canlyniadau, gan ddefnyddio dadansoddiad ar sail risg gyferbyn ag amrediad o ffynonellau data. Yn yr adran sy'n dilyn, disgrifir y broses a fabwysiadwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu cyflwyniadau 2006-2007.

1.7. O Ebrill 2008 ymlaen, bydd cydymffurfiaeth â'r safonau gofal iechyd yn cael ei defnyddio hefyd i oleuo Datganiadau Rheolaeth Fewnol ac Adroddiadau Blynyddol y sefydliadau.

2. Proses Asesu 2006-2007

Yr Hunanasesiad

2.1. Roedd 2006-2007 yn flwyddyn ddatblygiadol, pan ymgymerwyd â datblygu a phrofi proses asesu newydd. Rhoddwyd y pwyslais ar ddatblygu proses asesu a fyddai'n gosod y cyfrifoldeb am gydymffurfio â *Safonau Gofal Iechyd Cymru* yn ddigamsyniol ar Fyrddau'r sefydliadau gofal iechyd, ac a fyddai'n cefnogi'r agenda llywodraethu. Mae'r broses yn gam allweddol at sicrhau y delir y sefydliadau gofal iechyd yn atebol am safon y gwasanaethau a ddarperir ganddynt, ac y caiff cleifion a'r cyhoedd well gwybodaeth am berfformiad darparwyr a chomisiynwyr eu gofal iechyd ac, yn bwysicach na hynny, y safonau y dylent eu disgwyl.

2.2. Trwy ymgynghori â sefydliadau gofal iechyd a phartneriaid allweddol eraill, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi datblygu proses hunanasesu sy'n profi perfformiad gyferbyn â'r *Safonau Gofal Iechyd* ar dair lefel wahanol:

- *Corfforaethol* – pa mor dda y mae'r Byrddau yn gwneud eu gwaith, o ran sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau?
- *Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol* – sut y sicrheir cydymffurfiaeth â'r safonau ar lefel y gwasanaeth/ward?
- *Profiad y Claf*[2] – sut brofiad a gaiff y defnyddiwr, ac a yw'r profiad yn gwella?

2.3. Mae meini prawf a chwestiynau asesu wedi eu gosod ar gyfer pob safon, ac wedi eu datblygu yn offeryn asesu sy'n seiliedig ar y we ac yn caniatáu llenwi'r hunanasesiadau ar-lein, gan lanlwytho tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r atebion a roddir i bob cwestiwn. Cefnogir y cwestiynau gan ganllawiau defnyddiol sy'n esbonio gofynion pob un o'r 32 o safonau.

2.4. Mynnwyd bod y sefydliadau yn asesu eu cynnydd tuag at gyflwyno perfformiad o'r lefel uchaf gyferbyn a phob un o'r 32 safon, trwy ddefnyddio matrics

[2] Yng nghyd-destun y broses asesu ynglŷn â'r Safonau Gofal Iechyd, arferir y term 'defnyddiwr' i ddynodi, cleifion, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a staff.

aeddfedrwydd. Mae matrics o'r fath yn caniatáu asesu'r perfformiad yn y meysydd corfforaethol, gweithredol a phrofiad y claf fel un o'r pum lefel aeddfedrwydd canlynol:

- Ymwybodol
- Ymatebol
- Datblygol
- Ymarferol
- Arweiniol

Diffinnir pob un o'r lefelau aeddfedrwydd hyn yn Atodiad 1

2.5. Gan mai blwyddyn o ddatblygu oedd eleni, bu'n rhaid i sefydliadau'r GIG gadw o fewn rhai terfynau amser tyn, ac yr oedd yn ofynnol iddynt gyflwyno hunanasesiad cyflawn i AGIC erbyn 30 Mehefin 2007, sef tri mis ar ôl rhyddhau'r offeryn asesu. Llwyddodd BILlA Rhondda Cynon Taf i wneud hynny mewn pryd, a hoffem gydnabod yr holl waith, ymdrech ar ymroddiad a ddangoswyd gan y BILlA er mwyn cwblhau'r cyfan erbyn y dyddiad cau.

Profi a Dilysu

2.6. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi profi a dilysu'r cyflwyniad hunanasesu gan BILlA Rhondda Cynon Taf ac yr oedd hynny yn cynnwys nifer o gamau:

- *Cam 1* – Dilysiad pen bwrdd o'r hunanasesiad gan gymheiriaid ac adolygwyr lleyg. Roedd y cam hwn yn nodi a oedd y cwestiynau ategol ar gyfer pob maen prawf wedi'u hateb yn briodol, profi a oedd yr ateb wedi ei gefnogi gan dystiolaeth ddigonol a pherthnasol, a gwerthuso a oedd yr ateb yn cyd-fynd â'r sgôr aeddfedrwydd a ddyfarnwyd gan y sefydliad.

- *Cam 2* – Cynhaliwyd cyfarfodydd cymedroli trwy gydol mis Awst i gymharu a chyferbynnu ymatebion a sgoriau aeddfedrwydd, fesul sefydliad a fesul safon. Roedd y cam hwn o'r broses yn allweddol er mwyn sicrhau bod y sgoriau'n gyson a safonedig.

- *Cam 3* – Ymweld â safleoedd y sefydliadau i brofi agweddau ar brofiad y claf/ defnyddiwr.

Yr Ymweliad Safle

2.7. Roedd yr ymweliad safle yn un o'r camau yn y broses o ddilysu a phrofi hunanasesiad BILIA Rhondda Cynon Taf, ac fel y nodwyd uchod, roedd yn canolbwyntio ar brofi agweddau allweddol ar brofiad y defnyddiwr. Gwnaed ein hymweliad ar 11 Medi 2007, a buom yn hwyluso grwpiau ffocws o'r cleifion ac o'r staff.

2.8. Yn ychwanegol ar ddiwrnod ein hymweliad, gwnaed gwiriadau ar y staff o ran eu datgeliadau Swyddfa Cofnodion Troseddol, hyfforddiant a gwerthuso. Mae rhaglen waith fanwl ar gyfer yr ymweliadau hyn ar gael ar wefan AGIC www.agic.org.uk .

Uwchgynadleddau Gofal Iechyd

2.9. Ym mis Awst, bu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cydgysylltu ac yn hwyluso tri chyfarfod rhanbarthol, 'Uwchgynadleddau Gofal Iechyd' , gan ddod a chyrff adolygu ac archwilio ynghyd er mwyn rhannu gwybodaeth a chyfrannu i'r broses o gadarnhau'r asesiadau Safonau Gofal Iechyd. Mae'r Uwchgynadleddau hyn yn gam allweddol yn y symudiad tuag at rannu mwy o wybodaeth ledled y sefydliadau adolygu, a datblygu cynlluniau archwilio a sicrhau ar y cyd.

3. Trosolwg ar Fwrdd Iechyd Lleol Addysgu Rhondda Cynon Taf

3.1 Sefydlwyd BILIA Rhondda Cynon Taf fel sefydliad statudol newydd yn Ebrill 2003. Mae gan BILIA Rhondda Cynon Taf ei Fwrdd a'i dîm rheoli pwrpasol ei hunan. Mae'n cydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf mewn partneriaeth a chyrff lleol eraill megis yr Ymddiriedolaethau GIG, y Cynghorau Iechyd Cymunedol a'r sector gwirfoddol i ddarparu ffocws lleol ar gyfer ddatblygu strategaethau i wella iechyd, lles a gofal cymdeithasol o fewn yr ardal. Anogir y boblogaeth leol hefyd i gyfranogi mewn cynllunio gofal ar gyfer unigolion, gwella'r gwasanaethau a chynllunio newidiadau a datblygiadau yn y gwasanaethau.

3.2 Mae 26 o aelodau a phedwar aelod cysylltiol yn gwasanaethu ar Fwrdd BILIA Rhondda Cynon Taf, gyda chynrychiolwyr o'r gymuned, y sector gwirfoddol, y cyngor bwrdeistref sirol a'r gwasanaeth iechyd lleol. Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd mewn nifer o fannau ledled y sir bob dau fis, ac y mae’r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd.

4. Canfyddiadau – gan gynnwys meysydd ar gyfer Gwella ac Arferion Da

4.1 Profiad y claf

Safon 1
Gofynnir am farn y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd, ac ystyrir eu barn wrth ddylunio, cynllunio, cyflawni, adolygu a gwella gwasanaethau gofal iechyd a'u hintegreiddio â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.

S1.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ddatblygol** ar lefel y Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol.

S1.2. Gallai'r BILlA ddangos ei fod yn cymryd camau i ymgyrraedd at y safon hon trwy gyfrwng y canlynol:

- Mabwysiadu Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd (PPI).
- Penodi Arweinydd ar y Bwrdd ar gyfer 'Cydweithredu Cymunedol' ac Arweinydd Gweithredol ar gyfer PPI.
- Adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd ar ganlyniadau ac adborth o gyfarfodydd fforymau cyhoeddus. Mae Aelodau o'r Bwrdd hefyd yn bresennol yn rheolaidd yn y cyfarfodydd.
- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol yn monitro'r Strategaeth a Chynllun Gweithredu PPI.
- Mae arweiniad y BILlA i'r Gwasanaethau Lleol yn cynnwys gwybodaeth am y modd y gall preswylwyr lleol ymgysylltu â chynllunio a llunio'r gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r arweiniad hwn wedi ei gyfieithu yn ddiweddar i'r Bwyleg ac i'r Bortiwgaleg.
- Cyfrifir ystyriaeth o safbwyntiau'r cleifion yn rhan o'r broses o gynllunio, comisiynu ac adolygu gwasanaethau, ac adlewyrchir hynny yn yr Amcanion Corfforaethol . Enghreifftiau yw Prosiect Ail-ddylunio Gwasanaethau Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, Datblygu Cyfleusterau Gofal Iechyd ar gyfer Glyn Cynon, Datblygu'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, ac

Adolygiad o'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion ym Merthyr a Glyn Cynon.

- Cyflwyno Arolygon cleifion megis hwnnw ar gyfer yr Holiadur Asesu Ymarfer Cyffredinol, sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith Canlyniadau Ansawdd.
- Darparu Gwasanaeth Cefnogi Cleifion(mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a'r Rhondda) sy'n cynnig cyfleoedd i gleifion, perthnasau a gofalwyr i geisio arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â'r gofal a gafwyd. Gweithredi i gywiro unrhyw faterion a nodir, a chesglir data yn ogystal, er mwyn canfod unrhyw dueddiadau.
- Yn rhan o'r broses o weithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) ar gyfer Pobl Hŷn, mae'r BILlA yn cymryd rhan ar hyn o bryd mewn rhaglen waith, a gyflawnir ar y cyd â phartneriaid gan gynnwys yr awdurdod lleol, ac sy'n mynnu cael tystiolaeth nad yw polisïau ac ymarfer yn camwahaniaethu yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol yn erbyn pobl hŷn.

S1.3. Yn rhan o'r ymgynghoriad ar yr Asesiad Anghenion ar gyfer y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, roedd y BILlA a'r awdurdod lleol wedi paratoi ymgynghoriad penodol â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys 200 ddisgyblion ysgol ledled RhCT.

S1.4. Ar gyfer Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol y BILlA, mabwysiadwyd dull y Fforwm Agored mewn ymgais i ddenu rhagor o bobl i gymryd rhan, ac i roi cyfle i'r BILlA gyflwyno rhagor o wybodaeth am ei Adroddiad Blynyddol. Yn ychwanegol, rhoddir cyfle i'r gynulleidfa yn y digwyddiad chwarae rhan ymarferol trwy ddefnyddio bysellbad electronig i fynegi barn ar y ffordd orau a o gael pobl i ymgysylltu, ac i nodi pynciau i'w trafod ymhellach ac yn y dyfodol.

S1.5. Mae'n amlwg bod y BILlA yn ymgymryd â llawer o waith er mwyn bodloni'r safon hon, a chytunwn fod y BILlA yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol. Fodd bynnag, bydd angen i'r BILlA gyflwyno cryfach tystiolaeth yn y dyfodol ynglŷn ag adrodd yn rheolaidd ac ynglŷn â monitro gan y Bwrdd. Rydym yn cytuno â'r asesiad o **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol ac yn ystyried y BILlA yn **Ddatblygol** hefyd ar hyn o bryd ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Ni allem gadarnhau

bod y profiad yn dda yn gyffredinol ar draws pob maes, ac yr oedd gwybodaeth a gasglwyd yn ystod yr ymweliad â'r safle yn awgrymu bod y cyfathrebu yn wael ynghylch practisiau rheoledig, ac nad oedd y cleifion bob amser yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys. Nodwyd hefyd, fodd bynnag, bod y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol bob amser ar gael i siarad â hwy.

Safon 2

Mae cynllunio a chyflawni gofal iechyd yn:

a. adlewyrchu profiadau, safbwyntiau a dewisiadau cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth;

b. adlewyrchu anghenion iechyd y boblogaeth a wasanaethir;

c. yn seiliedig ar dystiolaeth a gytunir yn genedlaethol ac ar yr arferion gorau; ac

ch. yn sicrhau tegwch o ran mynediad at wasanaethau.

S2.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S2.2. Dangosodd y BILlA ei fod yn cymryd camau i ymgyrraedd at y safon hon trwy gyfrwng y canlynol:

- Y Cynllun Gwasanaeth a Chomisiynu Blynyddol (CGCB) sy'n pennu'r nodau, yr amcanion a'r blaenoriaethau cyffredinol, a hefyd yn ystyried y blaenoriaethau a bennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chan yr asesiad o anghenion y boblogaeth leol a gwblheir yn rhan o'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.
- Mae'r cynnydd tuag at gyflawni'r CGCB yn cael ei fonitro gan Dîm Gweithredol y BILlA, a chytunwyd erbyn hyn i gyflwyno adroddiadau chwarterol hefyd i'r Bwrdd. Mae'r cynnydd gyferbyn â'r targedau cenedlaethol yn cael ei fonitro bob dau fis gan y Bwrdd trwy'r Cerdyn Sgorio Cytbwys. Cytunwyd hefyd y bydd grŵp craffu yn archwilio unrhyw fethiant i gyrraedd targedau. Sefydlir y grŵp hwnnw yn un o is-grwpiau'r Bwrdd.
- Asesiadau anghenion a gyflawnir yn rhan o'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. Yn ychwanegol, mae asesiadau anghenion penodol wedi eu cwblhau i oleuo'r adolygiadau o'r gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion, yr adolygiad o wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed

(CAMHS), y Strategaeth Gomisiynu Camddefnyddio Sylweddau, a'r Strategaeth Gydgomisiynu ar gyfer Gwasanaethau i'r Henoed/Anabl. Yn yr asesiadau anghenion hyn cynhwyswyd dadansoddiad o'r data demograffig, cymdeithasol-economaidd ac epidemiolegol, y galwadau cyfredol a rhagamcanedig ar y gwasanaethau, a data meincnodi. Mae'r asesiad o anghenion iechyd y boblogaeth hefyd wedi bod yn sbardun ym Mhrosiect Ail-ddylunio Gwasanaethau Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful ac wedi goleuo datblygiad modelau gwasanaeth a chynlluniau cyfalaf ar gyfer cyfleusterau gofal iechyd yng Nglyn Cynon.

- Defnyddir nifer o fecanweithiau i fonitro mynediad cleifion at wasanaethau, gan gynnwys: gwybodaeth am fynediad i ofal sylfaenol; monitro cwynion; a thrwy'r mecanweithiau Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd (PPI). Defnyddir data perfformiad hefyd yn fesur o'r mynediad at wasanaethau, er enghraifft, amseroedd aros ac achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal. Cynorthwyir y cleifion hefyd i gael mynediad at y gwasanaethau gan fentrau megis yr 'Arweiniad i'r Gwasanaethau Iechyd Lleol' a gwefan y BILlA, yn ogystal â gwasanaeth eiriolaeth mewn achosion iechyd meddwl ac arweiniad i'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

S2.3 Mae'r BILlA yn comisiynu Gwasanaeth Cefnogi Cleifion (GCC) ac wedi penodi Swyddog Gwybodaeth Gofal Sylfaenol i weithio o fewn y gymuned er mwyn darparu gwybodaeth ac arweiniad i gleifion ynglŷn â'r gwasanaethau sydd ar gael ym maes iechyd ac o fewn sefydliadau partner. Gellir defnyddio data'r Fframwaith Canlyniadau Ansawdd i fonitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan bractisiau, a gellir eu defnyddio hefyd gan y practisiau i adolygu a newid eu dull o gyflenwi gwasanaethau. Mae'r BILlA wedi mapio'r gwasanaethau a ddarperir gan bob practis, a defnyddir yr ymarferiad hwnnw i ddarparu gwybodaeth i gleifion sy'n chwilio am bractisiau sy'n cynnig gwasanaeth penodol.

S2.4 Mae'r BILlA wedi sefydlu Prosiect Rheoli Atgyfeiriadau sydd â'r nod o sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld ar yr adeg briodol yn y man priodol gan y person cywir. Trwy ddadansoddi'r cyfraddau atgyfeirio, y tueddiadau a'r cymysgedd achosion, bu'n haws canfod ym mha ardaloedd y gellid datblygu llwybrau amgen i leihau'r galw am ofal eilaidd a gwella'r mynediad at y gwasanaethau. Enghreifftiau o'r llwybrau

newydd yw'r Rhwydweithiau Mân Lawdriniaethau Gofal Sylfaenol yng nghymoedd Rhondda a Chynon a'r Gwasanaeth Brysbennu ac Asesu Orthopedig yng Nghwm Cynon.

S2.5 Dangosodd y BILlA ymroddiad i weithio i sicrhau bod cleifion yn cael mynediad at wasanaethau, a bod yr asesiad o anghenion y boblogaeth yn cael ei ystyried a'i gynnwys yn rhan o'r cynlluniau priodol. Fodd bynnag, nid oedd yn eglur o'r dystiolaeth pa fecanweithiau sydd wedi eu sefydlu i roi gwybodaeth i gleifion am amseroedd aros, na pha mor gadarn yw'r mecanweithiau hynny.

S2.6 Yn ychwanegol, yn ystod yr ymweliad â'r safle, sylwyd y defnyddir y fewnrwyd yn ogystal â diweddariadau i roi gwybod i'r staff am y canllawiau cenedlaethol. Nid oedd yn eglur, fodd bynnag, a oedd mecanwaith rheolaidd wedi ei sefydlu ar gyfer yr holl staff, er bod darpariaeth i ledaenu gwybodaeth i'r proffesiynau sydd â chontract. Hwyrach y dylai'r BILlA ystyried cryfhau ei brosesau ar gyfer lledaenu gwybodaeth am y canllawiau.

S2.7 Rydym yn cytuno ag asesiad y BILlA o **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 3
Dylai cleifion sydd ag anghenion iechyd brys gael mynediad at ofal priodol yn brydlon ac o fewn terfynau amser cenedlaethol a bennir yn flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

S3.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S3.2. Dangosodd y BILlA ei fod yn bodloni'r safon hon trwy gyfrwng y gwahanol fecanweithiau monitro, megis:

- y Bwrdd yn monitro'r cynnydd gyferbyn â'r targedau cenedlaethol bob dau fis trwy gyfrwng y Cerdyn Sgorio Cytbwys Cenedlaethol. Bydd grŵp craffu yn archwilio unrhyw fethiant i gyrraedd targedau yn y dyfodol.
- Y Gweithgor Cyllid a Pherfformiad.

- Y Bwrdd Perfformiad Gofal heb ei Drefnu, sy'n cael adroddiadau misol ynglŷn â pherfformiad a thargedau'r Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau.
- Cyfarfodydd Gweithredol Misol a gynhelir o fewn y BILlA i drafod materion penodol a rhoi arweiniad ynglŷn â phrosiectau gwella penodol.
- Trafodir y Cerdyn Sgorio Cytbwys ym mhob un o gyfarfodydd Tîm y BILlA ac y mae adroddiadau perfformiad ynghyd â'r cerdyn sgorio ar gael i'r staff trwy'r wefan.

S3.3. Mae'r BILlA wedi cydnabod y bu ychydig o ddirywiad yn ystod 2006-2007, o ran darparwyr a oedd yn cyrraedd y targedau cenedlaethol ar gyfer amseroedd ymateb Damweiniau ac Achosion Brys ac ambiwlans argyfwng. Amlygodd y BILlA ei fwriad i sefydlu grŵp craffu er mwyn monitro yn fwy manwl a gweithredu ynglŷn â hyn.

S3.4. Ni ddarparodd y BILlA unrhyw wybodaeth ategol i ddangos y trafodir y targedau cenedlaethol mewn cyfarfodydd tîm, er bod Adroddiad Blynyddol y BILlA ynghyd â'r adroddiadau perfformiad a gyflwynir i'r Bwrdd ar gael i'r cyhoedd ac wedi eu cyhoeddi ar y gwefannau perthnasol. Hwyrach y dylai'r BILlA ystyried, fodd bynnag, ai'r mecanweithiau hyn yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyfleu gwybodaeth i'r cleifion ac i'r staff.

S3.5. Rydym yn cytuno bod y BILlA yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol, ond ar hyn o bryd ystyriwn mai **Ymatebol** yw'r BILlA ar y lefelau at the Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 4

Mae'r adeiladau gofal iechyd wedi eu cynllunio'n dda, ac yn briodol ar gyfer :

a. hybu lles y cleifion a'r staff;
b. parchu anghenion, preifatrwydd a chyfrinachedd gwahanol gleifion;
c. ystyried diogelwch y cleifion y defnyddwyr a'r staff; ac
ch. darparu amgylchedd diogel sy'n amddiffyn y cleifion, y staff, yr ymwelwyr a'u heiddo, yn ogystal ag asedau ffisegol y sefydliad.

S4.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/ Clinigol ac yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S4.2. Dangosodd y BILlA ei fod yn cymryd camau i gyrraedd y targed hwn trwy gyfrwng y canlynol:

- Grŵp Datblygu Gofal Sylfaenol y BILlA sy'n goruchwylio'r modd y cyflawnir Strategaeth Ystadau y BILlA. Mae'r Grŵp yn monitro'r cynnydd a wneir ac yn delio ag unrhyw broblemau sy'n codi o ddatblygiadau newydd. Mae'r Grŵp yn adrodd yn uniongyrchol wrth y Bwrdd, sydd hefyd yn cael cofnodion pob cyfarfod o'r Grŵp. Cyflwynir adroddiad hefyd i bob cyfarfod o'r Bwrdd gan y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, gan nodi'r cynnydd a wnaed a'r problemau sydd wedi codi ynglŷn â phob cynllun.
- Cyflawni'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â materion megis iechyd a diogelwch, diogelwch gwybodaeth ac eiddo, asesu risg a diogelwch tân.
- Ymgysylltiad aelodau o'r Gyfarwyddiaeth gofal Sylfaenol ynghyd â gweithwyr proffesiynol eraill mewn unrhyw gynlluniau newydd sy'n ymwneud ag adeiladau gofal iechyd. Mae'r tîm yn cydweithio trwy gydol y cynllun ac o fewn fframwaith y Strategaeth Ystadau ac unrhyw ganllawiau sydd ar gael iddynt. Mae'r cynllunio hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r gofynion statudol, gan gynnwys anghenion cleifion, preifatrwydd a chyfrinachedd a'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.
- Mae'r Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol yn ymweld â phob practis, at ddibenion datblygu ymarfer a hefyd yn rhan o'r fframwaith ansawdd a chanlyniadau. Mae'r ymweliadau hyn yn ymwneud â datblygu amgylcheddau gofal iechyd.
- “Hyrwyddwr Dylunio” dynodedig sy'n aelod anweithredol o'r Bwrdd.
- Arolygiadau gan Wasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (GICCC) mewn perthynas â phractisiau deintyddol.
- Lle bynnag y mae practis rheoledig yn brin o le, ychwanegir unedau datodadwy sydd â chyfarpar o safon uchel, fel ffordd dros dro o ddatrys yr anhawster.
- Mae digwyddiadau diogelwch staff yn cael eu cofnodi a'u monitro.
- Mynnir bod ymarferwyr cyffredinol yn sicrhau bod hysbysiadau priodol yn cael eu harddangos yn amlwg ynglŷn â chydymffurfiaeth cleifion â'r gofynion diogelwch.
- Mae digwyddiadau ynglŷn â diogelwch cleifion yn cael eu cofnodi a'u monitro, a gweithredir ynglŷn â hwy.

S4.3. Mewn perthynas â chomisiynu cyfleusterau ysbyty newydd, megis Ysbyty Cwm Cynon, cynrychiolwyd y BILlA ar y Bwrdd Prosiect a fu'n goruchwylio'r dylunio gan Swyddogion ac aelodau o Fwrdd y BILlA. Cynrychiolwyd y BILlA hefyd ar y Bwrdd Prosiect ar gyfer adnewyddu wardiau a chyfleusterau gofal nas trefnwyd ymlaen llaw yn Ysbyty'r Tywysog Siarl.

S4.4. Cafodd defnyddwyr gwasanaeth gyfle i ddylanwadu ar ddyluniad a lleoliad yr ysbyty newydd yng Nghwm Cynon, trwy gyfrwng Fforwm Cwm Cynon. Defnyddir cyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus hefyd, i raeadru gwybodaeth ac yn fecanwaith ar gyfer adborth.

S4.5. Anogir practisiau i sefydlu grwpiau cleifion, er mwyn casglu sylwadau ac awgrymiadau.

S4.6. Yn ystod yr ymweliad safle, cafwyd cadarnhad gan aelodau o'r staff a'r cleifion bod Fforwm y Cwm mewn gwirionedd wedi rhoi cyfle da i'r cleifion gywiro a gwella'r adeiladau a'r amgylchedd gofal iechyd.

S4.7. Sylwyd, fodd bynnag, mai cyfyngedig oedd yr wybodaeth a oedd ar gael gan ymarferwyr cyffredinol.

S4.8. O ystyried y dystiolaeth, sy'n arddangos ymarfer arloesol a pharodrwydd i rannu ar draws y gymuned leol, rydym yn cytuno ag asesiad BILlA o **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/ Clinigol a chyda'r asesiad o **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 5

Mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn lleoliadau sydd

- *a. yn cael eu cynnal a'u cadw at safonau glanweithdra sy'n dderbyniol yn genedlaethol;*
- *b. yn gostwng y perygl i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal heintiau cysylltiedig â gofal iechyd, gan leihau nifer yr achosion o flwyddyn i flwyddyn; ac*
- *c. yn pwysleisio safonau uchel o ran hylendid ac yn cydymffurfio mentrau i annog arferion gorau.*

S5.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S5.2. Gallai'r BILlA ddangos ei fod yn cymryd camau i ymgyrraedd at y safon hon, er enghraifft y camau canlynol:

- Sefydlu gwahanol grwpiau megis y Gweithgor Datblygu Gofal Sylfaenol a'r is-grwpiau ohono a sefydlwyd ar gyfer deintyddion, optegwyr a fferyllwyr, sy'n delio â materion megis heintiadau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, neu faterion ynglŷn ag amgylcheddau sydd mewn cyflwr gwael. Mae'r Grŵp yn adrodd yn uniongyrchol wrth y Bwrdd, sydd hefyd yn cael cofnodion pob cyfarfod o'r Grŵp. Cyflwynir adroddiad hefyd i bob cyfarfod o'r Bwrdd gan y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol.
- Mae'r timau sy'n gweithio ar gynlluniau newydd yn sicrhau y defnyddir y deunyddiau mwyaf addas i sicrhau y bydd yr amgylcheddau'n hawdd i'w cynnal. Rheolir cyfleusterau a adeiledir o'r newydd yn llym dan ddeddfwriaeth sy'n sicrhau eu bod yn cyrraedd safon uchel.
- Mae Cyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol y BILlA yn ymweld â phob practis, at ddibenion datblygu ymarfer a hefyd yn rhan o'r fframwaith ansawdd a chanlyniadau. Cynhelir Archwiliadau Iechyd a Diogelwch ac asesiadau yn adeiladau'r BILlA a chyflwynir adroddiadau arnynt i'r grŵp risgiau anghlinigol. Adroddir am unrhyw risg sylweddol yn uniongyrchol i'r bwrdd.
- Ffurfiwyd Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a'r Rhondda sy'n cynnwys gwaith cynnal ataliol a chontractau angenrheidiol ar gyfer glanhau, casglu gwastraff masnachol etc.
- Strategaeth Gofal Iechyd Integredig ar gyfer Adeiladau gofal sylfaenol yn ardal RhCT.
- Mae Cytundebau Ymddiriedolaeth Lleol (CYLlau) gyda'r Prif Ymddiriedolaethau sy'n darparu, Cytundebau Lefel Gwasanaeth â chyrff gwirfoddol a chontractau â'r sector annibynnol i gyd yn rhoi sylw i fater y safonau glanweithdra. Mae'r cytundebau hyn yn cael eu monitro'n barhaus.
- Adroddir yn rheolaidd wrth y Bwrdd am dargedau'r Fframweithiau Gwasanaeth ac Ariannol (FfGA), sy'n cynnwys cyfraddau'r heintiau a geir

mewn ysbytai. Yn ychwanegol, mae'r Bwrdd yn derbyn briffiadau mewn perthynas ag MRSA a gwybodaeth berthnasol arall. Mae Cyfarwyddwr Nyrsio BILlA a'r Cyfarwyddwr Meddygol yn gwasanaethu ar Bwyllgor Llywodraethu Clinigol yr Ymddiriedolaeth, lle y trafodir glanweithdra a chyfraddau'r heintiau a geir mewn ysbytai.

- Mynnir bod y practisiau a reolir yn gweithredu mesurau i reoli traws-heintio, a bod ganddynt yr offer ataliol angenrheidiol.

S5.3. Er ein bod yn cadarnhau asesiad y BILlA o **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/ Clinigol, nid oedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn nodi'n eglur sut y gweithredir ar faterion gwaith cynnal. Gwan oedd y dystiolaeth ynglŷn â gwneud cleifion yn ymwybodol ac yn alluog i weithredu ac i herio'r staff mewn perthynas â heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd; ond yr oedd y BILlA yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith yn y maes hwn. Ni allwn gytuno, felly, ag asesiad y BILlA o Ddatblygol ar gyfer Profiad y Defnyddiwr, ac ystyriwn nad yw ond yn **Ymatebol**.

Safon 6

Mae cyrff gofal iechyd, wrth gydnabod y gwahanol anghenion o ran cyfathrebu a'r gwahanol anghenion ieithyddol, corfforol a diwylliannol:

a. sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn hygyrch i'r cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau ac i'r cyhoedd ynglŷn â'u gwasanaethau;

b. darparu gwybodaeth yn brydlon i gleifion a defnyddwyr y gwasanaeth ynglŷn â'u cyflwr; y gofal a'r driniaeth a gânt, a'r trefniadau ar gyfer ôl-ofal a chymorth; ac

c. rhoi cyfleoedd i gleifion a defnyddwyr y gwasanaeth i drafod a chytuno ar opsiynau'n ymwneud â'u gofal.

S6.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ddatblygol** ar lefel y Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol.

S6.2. Mae'r BILlA yn cymryd camau i gydnabod a darparu ar gyfer gwahanol anghenion ieithyddol, cyfathrebol, corfforol a diwylliannol mewn perthynas â gofal cleifion, trwy gyfrwng y canlynol:

- Gweithredu gwahanol bolisïau a gweithdrefnau megis y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol, Cynllun Anabledd, Cynllun iaith Gymraeg, Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol, Polisi Cydraddoldeb, a Strategaeth Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd.
- Cael cynrychiolaeth ar grwpiau megis Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol a Chyngor Cydraddoldeb Hiliol y Cymoedd.
- Monitro'r wybodaeth a ddarperir i gleifion gan y Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol, yn ystod yr ymweliadau datblygu ymarfer a'r ymweliadau fframwaith ansawdd a chanlyniadau.
- Darparu gwybodaeth ar ffurf Arweiniad i'r Gwasanaethau Lleol.
- Presenoldeb mewn cyfarfodydd gan gynnwys Fforymau Cyhoeddus, Cynghorau Iechyd Cymunedol (CICau), Cyngor Cydraddoldeb Hiliol y Cymoedd a'r Fforymau Pobl Hŷn a Phlant.

S6.3. Er bod y Bwrdd yn cymryd camau i roi sylw i'r materion allweddol trwy ddatblygu cynlluniau strategol, prin yw'r dystiolaeth i ddangos bod y Bwrdd yn monitro'n ddigonol, neu'n cael sicrwydd bod yr wybodaeth am wasanaethau ar gael ac yn hygyrch yn brydlon i bawb. Yn ychwanegol, cyfyngedig iawn oedd yr wybodaeth am amodau, gofal a thriniaeth, ac ni ddarparwyd unrhyw enghreifftiau yng nghyflwyniad y BILlA. Nid ymdriniwyd yn ddigonol chwaith â'r prosesau a sefydlwyd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gwybodaeth a'i rhoi ar gael. Oherwydd hyn, ystyriwn mai **Datblygol** yw'r BILlA ar y lefel Gorfforaethol ac **Ymatebol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. Ni ellid cadarnhau ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd bod y profiad yn dda yn gyffredinol ym mhob ardal, ac yn ystod yr ymweliad safle, cafwyd bod rhai o'r staff a'r cleifion yn teimlo nad oedd y gefnogaeth i amrywiaeth yn dda iawn, a bod ansawdd yr wybodaeth yn amrywio.

Safon 7
Mae cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth, gan gynnwys pobl ag afiechydon hirdymor, yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal eu hunain ac yn cael cyfleoedd ac adnoddau i ddysgu sut i ofalu amdanynt eu hunain.

S7.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S7.2. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILlA o **Ddatblygol** ar y tair lefel, a dangoswyd hynny trwy'r canlynol:

- Dyrannwyd y cyfrifoldeb am oruchwylio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau gyfer unigolion sydd â chyflwr/cyflyrau cronig i Arweinydd Gweithredol. Mae'r Arweinydd Gweithredol yn adrodd yn rheolaidd am ddatblygiadau mewn gwasanaethau o'r fath wrth Weithgor Partneriaethau Strategol y BILlA yn ogystal ag wrth Fwrdd BILlA.
- Dynodir deiliaid swyddi penodol i arwain ar faterion megis iechyd meddwl, gwasanaethau cyflyrau cronig a gwasanaethau i blant a phobl ifanc.
- Cynlluniau Gweithredu'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles; adroddir yn rheolaidd wrth Fwrdd BILlA am y cynnydd gyferbyn â'r cynlluniau gweithredu.
- Gweithredu Rhaglen Rheoli Cyflyrau. Gall y defnyddwyr gwasanaeth drafod a negodi eu cynllun gweithredu gydag ymarferydd cymwysedig, ac thrwy hynny gyfranogi yn llawn yn y broses.
- Mewn partneriaeth â Rhwydwaith y Galon De-ddwyrain Cymru, mae'r BILlA wedi cyflwyno cofnodion symudol Clefyd Coronaidd y Galon a Diabetes i weithwyr iechyd proffesiynol lleol, i'w cefnogi i ymgysylltu ag unigolion mewn perthynas â'u cynllun gofal.
- Gweithredu Rhaglen Llwybrau Gofal Integredig yn rhan o'r fenter genedlaethol gan AGAAGI.
- Mabwysiadu amrywiaeth o brosiectau, gan gynnwys: Prosiect Trawiad ar y Galon y BILlA sy'n defnyddio technegau cyfweld symbylol i gael gwell dealltwriaeth o barodrwydd a gallu unigolyn i addasu eu ddull o fyw, pan yw'n hysbys ei fod mewn perygl o ddatblygu clefyd coronaidd y galon; a'r Prosiect

Meddyginiaethau Cartref, lle mae fferyllwyr a Gweithwyr Gofal Cartref yn cydweithio i helpu unigolion i reoli eu meddyginiaeth gartref, a thrwy hynny lleihau'r perygl o gymryd gormod o'r feddyginiaeth.

- Nifer o bolisïau a strategaethau sy'n nodi'r mecanweithiau a ddefnyddir gan y BILlA er mwyn symud ymlaen i ddatblygu hunan-ofal, a'r dull o fonitro'r cynnydd, gan gynnwys y Strategaeth PPI, y Polisi Archwilio Clinigol a'r Strategaeth Ansawdd ac Effeithiolrwydd Clinigol.

S7.3 Mae'r practisiau a reolir yn adrodd yn ôl wrth Fwrdd y BILlA trwy gyfrwng cyfarfodydd y grŵp strategaeth. Rhoddir cyfle i'r cleifion drafod a chytuno ar eu hopsiynau gofal yn ystod eu hymgynghoriad ag aelod priodol o'r tîm gofal sylfaenol.

S7.4 Cynrychiolir y BILlA ar wahanol grwpiau gan gynnwys, er enghraifft, dau Grŵp Cynghori Gwasanaeth Diabetes Lleol (GCGDLl) yn ardal Rhondda a Thaf Elái ac ym Merthyr Tudful a Chwm Cynon. Mae cynrychiolwyr y defnyddwyr gwasanaeth yn aelodau o'r GCGDLlau, ac y mae gan y GCGDLlau bob un ei grŵp cyfeirio cleifion sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac yn goleuo'r trafodaethau ac eitemau'r agenda ym mhob cyfarfod GCGDLl.

Safon 8
Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

a. bod y staff yn trin y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofalwyr ag urddas a pharch;
b. bod y staff eu hunain yn cael eu trin ag urddas a pharch;
c. yr eir ati yn briodol i gael caniatâd goleuedig ar gyfer cysylltu â chleifion a defnyddwyr y gwasanaeth ac ar gyfer defnyddio unrhyw wybodaeth gyfrinachol am gleifion; ac
ch. y trinnir gwybodaeth am gleifion yn gyfrinachol ac eithrio pan fo deddfwriaeth yn caniatáu gweithredu'n groes i hynny.

S8.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S8.2. Mae'r BILlA yn cymryd camau i ymgyrraedd at y safon hon trwy gyfrwng y canlynol:

- Grŵp Datblygu gofal Sylfaenol sy'n adrodd yn uniongyrchol wrth y Bwrdd ac yn ymdrin â materion megis urddas a pharch o fewn gofal sylfaenol.
- Bydd Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol y BILlA yn bresennol mewn fforymau cenedlaethol, cyfarfodydd misol CIC Pontypridd a'r Rhondda ac mewn cyfarfodydd o grwpiau cleifion meddygfeydd ymarferwyr cyffredinol penodol. Bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd CIC Merthyr Tudful a Chwm Cynon.
- Mae contractau'r BILlA â'r sector annibynnol yn rhoi sylw dyladwy i'r ddogfen Hanfodion Gofal.
- Adolygu a monitro'r cwynion a wneir, yn ogystal â'r ganmoliaeth.
- Mabwysiadu polisïau a gweithdrefnau megis, er enghraifft, Urddas yn Gweithle, Trais yn y Gwaith, Gwahaniaethu ar Sail Oedran, Cynlluniau Cydraddoldeb Hiliol a Chydraddoldeb Anabledd, Bod yn Agored, Rhyddid Gwybodaeth a rheoli E-bost a Chofnodion.
- Grŵp Cyswllt y Staff a Phwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth, lle y trafodir ac y gweithredir ar faterion lles y staff a'u pryderon.
- Canlyniadau Arolygon Staff.
- Datblygu Polisi Caniatâd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Darparwyd sesiynau hyfforddi 'dosbarth meistr' i gynghorwyr personol yn y Ganolfan Byd Gwaith, ar faterion megis ymwybyddiaeth iechyd meddwl, caniatâd, etc.

S8.3. Mae'r BILlA wedi darparu llenni preifatrwydd ffitiedig o amgylch y gwelyau archwilio ym mhob un o'r practisiau a reolir, ac wedi prynu gwelyau y gellir eu codi a'u gostwng yn electronig Yn ychwanegol, yn rhan o'r gwaith a wneir mewn partneriaeth â'r Ganolfan Byd Gwaith, darparwyd gwasanaeth cyfieithu ar gyfer y byddar, ac y mae'r holl ddeunyddiau ar gael mewn Braille neu brint bras i'r rhai sydd â nam ar eu golwg. Byddai cefnogaeth “Mynediad at Waith” ar gael, gan gynnwys meddalwedd arbenigol, sgrîn fawr, etc. Mae cefnogaeth Cynghorwr Cyflogaeth Anabledd ar gael yn ogystal, ar gyfer asesiadau gweithle. Mae'r BILlA hefyd wedi datblygu cysylltiadau ar gyfer darpariaeth arbenigol gyda Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB) a Sefydliad y Deillion Caerdydd.

S8.4. Er bod llawer enghraifft o arferion gwaith da, mae'n ofynnol gwneud rhagor o waith i ddatblygu a chyflawni Polisi Caniatâd, ac arddangos mecanwaith eglur ar gyfer monitro'r modd y mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd ynghylch materion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn darparu sesiynau hyfforddiant penodol i'r staff yn y maes hwnnw. Ar y sail honno, ni allwn ond cadarnhau bod y BILlA yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. .

Safon 9

Lle bydd bwyd yn cael ei darparu, bydd systemau ar waith i sicrhau:

- *a. bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael dewis o fwydydd sydd wedi eu paratoi'n diogel ac sy'n sicrhau diet gytbwys; ac*
- *b. bod gofynion maethol, personol, diwylliannol a chlinigol y cleifion o ran diet yn cael eu bodloni, gan roi iddynt unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta, a sicrhau bod ganddynt fynediad at fwyd 24 awr y dydd.*

S9.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S9.2. Fel comisiynydd gwasanaethau gofal iechyd, mae'r BILlA yn sicrhau ei hunan bod systemau wedi eu sefydlu i fodloni'r safon hon trwy gyfrwng y Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLGau) manwl â chyrff gwirfoddol, y contractau â'r sector annibynnol, ac yn achos y darparwyr sy'n Ymddiriedolaethau GIG, trwy bresenoldeb y Cyfarwyddwr Meddygol/ Cyfarwyddwr Nyrsio ym mhob Pwyllgor Llywodraethu Clinigol lle y trafodir y materion perthnasol.

S9.3. Mae'r CLGau a'r contractau yn cael eu monitro i sicrhau cydymffurfiaeth, o leiaf yn flynyddol; adolygir yn flynyddol ar y cyd â'r awdurdod lleol yn achos unigolion sydd mewn cartrefi nyrsio. Darperir adborth i'r staff yn y Cartref Nyrsio a dosberthir Canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) hefyd i gartrefi nyrsio. Mae'r BILlA wedi mabwysiadu Polisi Maetheg sy'n sicrhau bod bwyd yn cael ei drin yn ddiogel.

S9.4. Er ei bod yn amlwg bod y BILlA yn gyrru ymlaen â'r gwaith yn y maes hwn, mae'r BILlA ei hun yn cydnabod bod gofyn gwneud rhagor o waith i fonitro cydymffurfiaeth etc. Rydym felly yn ystyried y BILlA yn **Ymatebol** yn unig, ar bob un

o'r tair lefel. Byddwn yn darparu canllawiau pellach, a fydd yn barod ar gyfer cyflwyniad y flwyddyn nesaf, ar rôl y BILlAau o sicrhau bod y safon yn cael ei bodloni'n llawn.

Safon 10
Bydd cyrff gofal iechyd yn sicrhau na wahaniaethir yn annheg yn erbyn pobl sy'n cael gofal iechyd, ar sail oedran, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd na thueddfryd rhywiol.

S10.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr, ac yr ydym yn fodlon bod prosesau a gweithdrefnau priodol wedi eu sefydlu i gadarnhau asesiad y BILlA.

S10.2. Mae'r BILlA wedi datblygu a chymeradwyo amrediad o gynlluniau cydraddoldeb a chynlluniau gweithredu. Ymgymerir â monitro fel rhan o'r broses recriwtio, ac y mae monitro hefyd yn gynwysedig yn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau). Yn ogystal â chydweithio â Chyngor Cydraddoldeb Hiliol y Cymoedd (VALREC), cyflawnir gwaith partneriaeth ynglŷn â chydraddoldeb ar y cyd â'r awdurdod lleol a chyrff o'r sector gwirfoddol. Mae'r Bwrdd wedi enwebu aelod anweithredol yn ogystal ag aelod gweithredol o'r Bwrdd i fod yn gyfrifol am gydraddoldeb.

S10.3. Codir ymwybyddiaeth trwy gyfrwng sesiynau briffio ar gyfer y staff a sesiynau penodol ar gydraddoldeb, cylchlythyrau newyddion, holiaduron a thrwy gynnwys y staff mewn ymarferion ymgynghori Darparwyd hyfforddiant asesu effaith hefyd, ac y mae trafodaethau ar droed â Chanolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG ynglŷn â threfniadau ar gyfer hyfforddiant penodol, er enghraifft i hyfforddi swyddog cydraddoldeb.

S10.4. O fewn y 12 mis diwethaf mae'r BILlA wedi gweld bod angen, ac y mae bellach yn darparu, gwybodaeth am ei wasanaethau mewn ieithoedd megis Pwyleg a Phortiwgaleg, er mwyn ymateb i anghenion grwpiau penodol. Yn ychwanegol, mae'r gwaith a wnaed gyda rhai o'r grwpiau a dargedir, megis plant, pobl ifanc a'r henoed wedi arwain at gynlluniau eglur ar gyfer gweithredu ar y cyd â phartneriaid.

4.2. CANLYNIADAU CLINIGOL

Safon 11
Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

a. y darperir triniaethau a gofal clinigol gan bobl broffesiynol ym maes gofal iechyd sy'n gwneud penderfyniadau clinigol ar sail tystiolaeth;
b. y cyflawnir gofal clinigol a thriniaethau o dan oruchwyliaeth ac arweiniad priodol gan staff clinigol;
c. bod clinigwyr yn parhau i ddiweddaru eu sgiliau a'r technegau sy'n berthnasol i'w gwaith, gan gynnwys adolygiadau gan gymheiriaid; ac
ch. bod clinigwyr yn cymryd rhan mewn archwiliadau ac adolygiadau rheolaidd o'r gwasanaethau clinigol.

S11.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ddatblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S11.2. Dangosodd y BILlA ei fod yn cymryd camau i ymgyrraedd at y safon hon trwy gyfrwng y canlynol:

- Y Strategaeth Llywodraethu Clinigol a rhaglen dreigl tair-blynedd o ddatblygu.
- Pwyllgorau ac is-grwpiau gan gynnwys y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol, y Grŵp Gweithredol a'r Grŵp Archwilio ac Effeithiolrwydd, a'r Gweithgorau Presgripsiynu. Mae'r grwpiau hyn yn amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol, ac felly yn sicrhau dull o weithredu sy'n amgyffred y gymuned gyfan. Mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau ar lywodraethu clinigol a phresgripsiynu, ac y mae'r adroddiadau yn eitem reolaidd ar ei agenda.
- Mae Cytundebau Hirdymor (CH) gydag Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a'r Rhondda ac Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg yn sicrhau bod y gwasanaethau a gomisiynir yn seiliedig ar yr arferion gorau.
- Rhaglen Archwilio ac Effeithiolrwydd a seiliwyd ar y Polisi Archwilio Clinigol a'r Strategaeth Ansawdd ac Effeithiolrwydd.
- Cynlluniau Datblygu Personol (CDPau), Gwerthuso / Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau, Trefniadau Rheolaeth Llinell. Bydd y systemau cefnogaeth cymheiriaid a chefnogaeth broffesiynol yn awr yn cael eu hestyn i gynnwys yr holl staff.
- Darparu hyfforddiant, gan gynnwys: cyfarfodydd Datblygiad Proffesiynol Parhaus a gynhelir gydag Ymarferwyr Proffesiynol a Nyrsys Practis, Timau

Nyrsio a Staff yr Uned Cefnogi Gofal Sylfaenol; cofrestru ar Gwrs Arweinyddiaeth Glinigol AGAAGI. a darparu cyfleoedd i'r staff ennill MSc / Cymwysterau Diploma trwy Brifysgol Morgannwg.

S11.3. Er bod y BILlA yn amlwg yn ymgymryd â gwaith mewn nifer o feysydd, nid yw wedi dangos, er enghraifft:

- Sut y nodir anghenion hyfforddiant yr holl staff ledled y sefydliad.
- Sut y pennir y rhaglen archwilio clinigol yn eglur.
- bod y modd y cynllunnir y gweithlu yn seiliedig ar amcanion y BILlA.
- Bod model eglur ar gyfer goruchwylio clinigol wedi ei sefydlu, ynghyd â mecanweithiau ar gyfer monitro a sicrhau bod goruchwylio yn digwydd yn ffurfiol.

S11.4. yn dilyn ein hadolygiad, rydym yn asesu'r BILlA yn **Ddatblygol** ar bob un o'r tair lefel.

Safon 12
Bydd cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael triniaeth a gofal effeithiol, sydd:

a. yn cydymffurfio ag arfarniadau technolegol a gweithdrefnau ymyrryd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) ac argymhellion Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG);

b. yn seiliedig ar yr arferion gorau a gytunir yn genedlaethol fel y'u diffinnir yn y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, canllawiau clinigol NICE, cynlluniau cenedlaethol a chanllawiau ar gyflawni gwasanaethau a gytunir yn genedlaethol;

c. yn ystyried anghenion a dymuniadau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol y cleifion; ac

ch. yn integredig er mwyn darparu un gwasanaeth ar gyfer yr holl gyrff sydd i'w cynnwys, gan gynnwys cyrff gofal cymdeithasol.

S12.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/ Clinigol ac yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S12.2. Wrth ymgyrraedd at y safon hon, dangosodd y BILlA ei fod :

- Yn cymryd camau i fodloni'r anghenion a'r dewisiadau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol trwy'r asesiad anghenion a gyflawnir yn rhan o'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a thrwy'r gofynion deddfwriaethol sy'n rhan o'r cynlluniau cydraddoldeb.
- Yn sicrhau y gweithredir mewn partneriaeth trwy gael cynrychiolaeth eang o wahanol sefydliadau, gan gynnwys awdurdodau lleol, lleygwyr, cyrff gwirfoddol, ymddiriedolaethau a phroffesiynau sydd â chontract, ar ei Fwrdd ei hunan yn ogystal ag ar y Gweithgor Partneriaeth Strategaeth. Yn ychwanegol mae'r Prosiect Ail-ddylunio Gwasanaethau wedi hwyluso gwaith partneriaeth rhwng ymddiriedolaethau lleol a'r BILlA. Yn benodol, cred y BILlA fod y gwasanaethau plant wedi cael budd arbennig o waith y bartneriaeth 'Fframwaith'. Sefydlwyd Grŵp Cyswllt Gofal Sylfaenol/ Eilaidd yn ogystal.
- Mae'r Llwybrau Gofal ar gyfer Poen yn y Frest, Afiechyd Ysgyfeiniol Rhwystrol Cronig (COPD) ac Iselder wedi eu blaenoriaethu trwy gyfrwng gwaith y Prosiect Ail-ddylunio Gwasanaethau, ond cysylltwyd hwy hefyd â'r Fframwaith Gwasanaeth ac Ariannol (FfGA) a gofynion AGAAGI, yn unol â Strategaeth Cyflyrau Cronig y BILlA. Bydd y BILlA hefyd yn parhau'r broses ar gyfer meysydd afiechyd eraill, ar sail blaenoriaethau.
- Cefnogi'r staff trwy gyfrwng sesiynau codi ymwybyddiaeth a ddarperir mewn cyfarfodydd tîm a sesiynau briffio, gan ddefnyddio deunyddiau hyfforddi fideo. Roedd y sioeau teithiol datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer ymarferwyr cyffredinol yn cynnwys sesiwn ymwybyddiaeth ar faterion anabledd.

S12.3. Er bod y gwaith yn maes hwn yn dangos bod y BILlA yn adnabod y materion allweddol, mae'r dystiolaeth yn gyffredinol yn wan; prin yw'r arwyddion o gyfeiriad strategol pendant, ac y mae'r cynnydd yn ymddangos braidd yn araf. Rydym felly yn ystyried y BILlA yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol.

S12.4 Darparodd y BILlA enghreifftiau o Lwybrau Craidd Integredig a ddatblygwyd ganddo ar y cyd â'i bartneriaid, megis:

- Y Llwybr Gofal Dyddiau Olaf Oes
- Y Llwybr Gofal Arferion Gorau Clefyd Coronaidd y Galon

- Y Llwybr Gofal Diabetes
- Y Llwybr Gofal Cyflyrau Cronig
- Y Llwybr Gofal Iselder

Cyfeiriodd hefyd at sefydlu Rhwydwaith Gofal Lliniarol. Ystyriwn, felly, bod y BILlA yn **Ddatblygol** ar lefel y Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol.

S12.5 Mewn perthynas â lefel Profiad y Defnyddiwr, disgrifiodd y BILlA enghraifft o'r modd y deliodd yn llwyddiannus â chwyn. Dywedodd hefyd fod y gwaith ar ail-ddylunio gwasanaethau wedi datgelu problemau ynglŷn â thrafnidiaeth, a'i fod felly wedi comisiynu adolygiad o'r gofynion trafnidiaeth/ hygyrchedd sy'n gysylltiedig â'r modelau gofal arfaethedig. Rydym felly wedi asesu'r BILlA yn **Ddatblygol** ar y lefel hon hefyd.

Safon 13
Bydd gan gyrff gofal iechyd, sydd naill ai'n arwain neu'n cyfrannu at waith ymchwil, systemau i sicrhau bod egwyddorion a gofynion y fframwaith llywodraethu ymchwil yn cael eu cymhwyso'n gyson.

S13.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S13.2. Yn ei ymateb dywedodd y BILlA nad oedd wedi cymryd rhan ymarferol mewn gwaith ymchwil yn y gorffennol. Fodd bynnag, bydd ei strwythur yn hyn o beth yn newid yn awr, o ganlyniad i'w ddynodi'n Fwrdd Iechyd Lleol Addysgu, ac yn y dyfodol, bydd yn ymgymryd â phrosiectau ymchwil ei hunan ac ar y cyd â phrifysgolion lleol.

S13.3. Mae'r cyfrifoldeb am Lywodraethu Ymchwil wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol, a datblygwyd proses ar gyfer rheoli ceisiadau ymchwil, a reolir gan Grŵp Gweithredol Llywodraethu Clinigol y BILlA.

S13.4. Ar ôl ystyried y dystiolaeth, rydym yn asesu'r BILlA yn **Ymatebol** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymwybodol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

4.3. Llywodraethu Gofal Iechyd

Safon 14
Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati'n barhaus ac yn systematig i adolygu a gwella pob agwedd ar eu gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar iechyd a diogelwch y cleifion, y staff a'r cyhoedd. Byddant nid yn unig yn parchu'r ddeddfwriaeth ond hefyd yn defnyddio'r arferion gorau wrth asesu a rheoli risg.

S14.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S14.2. Dangosodd y BILlA ei fod yn cymryd camau i ymgyrraedd at y safon hon trwy:

- Ei Bolisi Iechyd a Diogelwch, a adolygir yn flynyddol ac y cyflwynir adroddiad arno i'w gymeradwyo gan y Bwrdd cyn ei ddosbarthu i'r staff.
- Bod â Pholisi a Gweithdrefnau wedi eu sefydlu i adrodd am Ddigwyddiadau, Peryglon a Diangfeydd Agos, ar gyfer staff y BILlA a Gofal Sylfaenol. Adroddir am y digwyddiadau yn fisol wrth y Grŵp Gweithredol Llywodraethu Clinigol.
- Strategaeth rheoli risg, sydd hefyd yn cael ei diweddaru yn flynyddol.
- Adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch, gan gynnwys canlyniadau gyferbyn â Safonau Cronfa Risg Cymru. Yn ogystal, pwyllgorau megis y Pwyllgor Archwilio sy'n adolygu unrhyw risgiau a nodir, a'r Grŵp Gweithredol Llywodraethu Clinigol sy'n cael adroddiadau.
- Archwiliadau iechyd a diogelwch blynyddol, yr adroddir arnynt wrth y grŵp risgiau anghlinigol, ac yn achos unrhyw risgiau uchel neu arwyddocaol, wrth y Dirprwy Brif Weithredwr yn ogystal, yn rhan o broses y gofrestr risgiau.
- Sesiynau briffio a gynhelir yn flynyddol ar gyfer y staff mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, h.y. hyfforddir aelodau enwebedig o'r staff mewn Diogelwch Tân, Cymorth Cyntaf, etc. Mae'r timau y dyrennir meysydd Rheoli Risg iddynt yn gyfrifol am gwblhau'r Gofrestr Risgiau sy'n gymwys i'w maes gorchwyl penodol hwy. Tynnir sylw at faterion penodol mewn cylchlythyr newyddion at y staff.
- Ymgyngoriadau â'r staff ar faterion megis iechyd a diogelwch a risgiau.

- Cynnwys cleifion yn natblygiad y rhaglenni gwella ansawdd, trwy gyfrwng y CIC a'r cynrychiolwyr lleyg sy'n gwasanaethu ar y Bwrdd ac ar nifer o is-bwyllgorau megis y Gweithgor Gofal Sylfaenol, a thrwy gyfrwng digwyddiadau fel Fforymau'r Cymoedd a drefnir i gael cleifion ac aelodau'r cyhoedd i ymgysylltu.
- Rhannu'r gwersi a ddysgir mewn perthynas â materion diogelwch cleifion (heb ddatgelu enwau) ledled Rhondda Cynon Taf trwy'r Cylchlythyr Newyddion Llywodraethu Clinigol.

S14.3. Rydym yn fodlon bod y BILlA wedi sefydlu'r trefniadau angenrheidiol ar y lefel Gorfforaethol, ond byddem wedi hoffi cael rhagor o fanylion am drefniadau'r Bwrdd ar gyfer Monitro, ynghyd â thystiolaeth o welliannau parhaus, ac felly rydym yn asesu'r BILlA yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol ar hyn o bryd.

S14.4. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILlA o **Ymarferol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol ond rydym hefyd yn ystyried y BILlA yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr. O'r dystiolaeth a gyflwynwyd, ni ellid dod i'r casgliad bod y profiad i unigolion yn dda yn gyffredinol ar draws bob maes; ac yn ychwanegol, gellid bod wedi dangos yn eglurach sut yr oedd y defnyddwyr yn ymgysylltu â'r rhaglenni gwella ansawdd.

Safon 15
Mae cyrff gofal iechyd, gan gydnabod y gwahanol anghenion o ran iaith a chyfathrebu, sicrhau bod cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr:

a. yn gallu rhoi adborth ar eu profiadau ac ar ansawdd y gwasanaethau;
b. yn cael sicrwydd y rhoddir sylw prydlon a thrylwyr i'w cwynion, yn unol â'r gweithdrefnau;
c. yn cael gwybodaeth am gymorth eiriolaeth a ddarperir gan gynghorau lechyd Cymunedol yng Nghymru; ac
ch. yn cael sicrwydd bod cyrff iechyd yn ymateb i unrhyw bryderon ac yn gwneud newidiadau priodol er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau.

S15.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S15.2. Dangosodd y Bwrdd ei fod yn ymgyrraedd at y safon hon trwy gyfrwng:

- Mecanweithiau megis Polisi Cwynion, Cynllun Cydraddoldeb Hiliol, Polisi ar Adrodd am Ddigwyddiadau, Polisi Bod yn Agored, Gweithgor Cwynion, llinell iaith ac Arweinwyr/ Hyrwyddwyr ar gyfer Cwynion a Chydraddoldeb, taflenni cleifion sy'n cynnwys gwybodaeth am y system gwynion, a phractisiau gofal sylfaenol y mae'n rhaid iddynt hysbysebu eu proses gwynion.
- Monitro hynt cwynion trwy'r Gweithgor Cwynion, sydd â chynrychiolwyr gwahanol asiantaethau yn aelodau ohono. Mae'r Gweithgor yn adrodd wrth y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol, a chyflwynir adroddiad i'r Bwrdd yn flynyddol ynglŷn â chwynion. Adroddir wrth y Bwrdd am faterion sy'n codi o'r fforymau cyhoeddus.
- Rhoi gwybod i'r staff, yn ystod eu cyfnod sefydlu, am gynlluniau a fabwysiadwyd megis Cynllun yr Iaith Gymraeg. Mae hyn yn eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd y Tîm Gweinyddu. Darperi gwybodaeth yn rheolaidd i'r staff trwy gyfrwng sesiynau briffio a chylchlythyrau newyddion.
- Cyfleu gwybodaeth yn gyson i ddefnyddwyr trwy'r gwasanaeth eiriolaeth o fewn y CIC a thrwy'r taflenni sydd ar gael i gleifion.

S15.3. Llwyddodd y BILlA i ddangos ei fod wedi sefydlu prosesau a gweithdrefnau cryfion ar gyfer trin cwynion. Gwan, fodd bynnag, oedd y dystiolaeth am y modd y cesglir ac y gweithredir ynghylch gwybodaeth am bryderon eraill neu adborth ehangach gan y cleifion, a'r modd y mae'r BILlA yn cael sicrwydd y rhoddir gwybod i'r holl gleifion beth yw eu hopsiynau, gan gynnwys, er enghraifft, rhai sydd ag anawsterau cyfathrebu, neu wahaniaethau iaith. Yn ychwanegol, er bod trefniadau wedi eu gwneud ar gyfer hyfforddi'r staff, nid oedd yn eglur pa hyfforddiant penodol a gyflenwyd.

S15.4. Canlyniad ein hadolygiad o'r dystiolaeth oedd fod gwaith ymarferol yn cael ei wneud ledled y sefydliad, ond nad oedd tystiolaeth wirioneddol o welliant parhaus, ac felly rydym yn ystyried y BILlA yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 16

Mae gan gyrff gofal iechyd systemau ar waith:

- *a. i nodi pob digwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau eraill y gellir eu cofnodi, a dysgu ganddynt*
- *b. adrodd am ddigwyddiadau wrth System Genedlaethol Adrodd a Dysgu yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA), a chyrff eraill yn unol â'r chanllawiau presennol*
- *c. dangos eu bod wedi gwella eu hymarfer ar sail gwybodaeth a phrofiadau a rennir yn lleol ac yn genedlaethol a gwybodaeth sy'n tarddu o ddadansoddi digwyddiadau; ac*
- *ch. sicrhau bod pobl yn gweithredu o ganlyniad i hysbysiadau diogelwch, rhybuddion, a negeseuon eraill sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion, o fewn y terfynau amser gofynnol*

S16.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymarferol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S16.2. Mae'r BILlA yn cymryd camau i ymgyrraedd at y safon hon trwy'r canlynol:

- Mae Polisi a Gweithdrefnau wedi eu sefydlu i adrodd am Ddigwyddiadau, Peryglon a Diangfeydd Agos, ar gyfer staff y BILlA a Gofal Sylfaenol. Defnyddir ffurflen safonol i gasglu'r data am ddigwyddiadau.
- Mecanweithiau monitro, gan gynnwys cyflwyno cofnodion y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol a'i Grwpiau Gweithredol ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd, ynghyd ag eitemau sy'n cyfeirio at ddigwyddiadau unigol, a drafodir yn ystod y "sesiynau pwyllgor" sy'n rhan o Gyfarfodydd y Bwrdd; adroddiadau misol am ddigwyddiadau, a gyflwynir gan y Rheolwr Llywodraethu Clinigol i'r Grŵp Gweithredol Llywodraethu Clinigol; adroddiadau cyfunedig ffurfiol am ddigwyddiadau a chwynion, a gyflwynir yn chwarterol i'r Bwrdd gan y Dirprwy Brif Weithredwr, ac Adroddiad Blynyddol a gyflwynir yn rhan o Adroddiad Blynyddol Ffurfiol y BILlA i'r cyhoedd.
- Mae'r Rheolwr Llywodraethu Clinigol, yn dilyn trafodaeth yn y Fforwm BILlA, yn cofnodi gwybodaeth yn y System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu (NRLS) yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion(NPSA) ar gyfer y practisiau sy'n cael bod y system yn mynd â llawer o'u hamser. Cofnodir yr wybodaeth hefyd yn system ddata'r BILlA ei hunan.

- Cynhaliwyd adolygiad llawn yn 2006 o system y BILIA ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau, trwy gyfrwng y Prosiect IRIS, a dilynwyd hynny yn ddiweddarach gan archwiliad.
- Yn ogystal â'r Cylchlythyr Newyddion Llywodraethu Clinigol, a ddosberthir i'r holl staff, mae'r Tîm Llywodraethu Clinigol a Gofal Sylfaenol hefyd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r angen i adrodd am bob digwyddiad.
- Y Ganolfan Gwasanaethau Busnes sy'n dosbarthu Rhybuddion Brys oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru etc fel y bo'n briodol. Yn ychwanegol, mae'r Cyfarwyddwr Meddygol, y Cyfarwyddwr Nyrsio a'r Rheolwr Llywodraethu Clinigol yn gyfrifol am godi'r ymwybyddiaeth o unrhyw Rybuddion Diogelwch Cleifion Gofal Sylfaenol perthnasol.
- Staff sy'n dilyn Hyfforddiant Dadansoddi Gwir Achos yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion
- Gwelliant yn y gwasanaeth yn dilyn adroddiad am ddigwyddiad ac archwiliad pellach i gael gwybod a oedd problemau cyffelyb wedi eu nodi mewn practisiau eraill.

S16.3. Ar sail yr atebion a roddwyd a'r dystiolaeth ategol, rydym yn ystyried bod y BILIA yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ond yn **Ddatblygol** yn unig ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol. Ar y lefel weithredol, ni chafwyd unrhyw dystiolaeth i arddangos meincnodi a arweiniodd at wella'n barhaus.

Safon 17
Bydd cyrff gofal iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed wrth gynnal eu gweithgareddau eu hunain ac wrth ddelio â chyrff eraill.

S17.1. Asesodd y BILIA ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/ Clinigol ac yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S17.2. Mae'r BILIA yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r canllawiau ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed trwy fabwysiadu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, strategaeth hyfforddiant ac addysg ac amrediad o bolisïau ar recriwtio a

dethol, chwythu'r chwiban, rhannu gwybodaeth, bod yn agored a rheoli cwynion. Adroddir wrth y BILlA am unrhyw faterion amddiffyn plant a gweithredir fel y bo angen; ac ar hyn o bryd adroddir trwy'r awdurdod lleol am unrhyw ddigwyddiadau ynglŷn ag oedolion agored i niwed.

S17.3. Wrth gydnabod ei gyfrifoldeb am amddiffyn plant, mae'r BILlA yn ymgysylltu ac yn cydweithio â phartneriaid eraill, er enghraifft:

- Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio yn cysylltu â'r Nyrs Ddynodedig a'r Meddyg Dynodedig yn y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, a hefyd â nyrsys enwebedig yn yr Ymddiriedolaethau lleol.
- Mae'r BILlA yn chwarae rhan ar y Bwrdd Lleol Diogelu Plant ac yn ei is-bwyllgorau, lle y rhennir pryderon, syniadau ac arferion da, er mwyn sicrhau cymeradwyaeth gydlyno y sefydliadau i'r trefniadau diogelu plant ledled y gymuned.
- Mae Cytundebau Lefel Gwasanaeth wedi eu sefydlu gyda chyrff gwirfoddol a chyda'r sector annibynnol, sy'n pennu'r safonau gwasanaeth a ddisgwylir; yn yr un modd mae'r Cytundebau Hirdymor gyda'r Ymddiriedolaethau yn pennu'r safonau ar gyfer amddiffyn plant.

S17.4. Mewn perthynas ag oedolion agored i niwed, mae'r BILlA wedi cymeradwyo'r Strategaeth Ataliol Leol ar gyfer Oedolion Agored i Niwed ac adroddir yn rheolaidd trwy'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol. Yma eto mae'r Bwrdd yn sicrhau cydymffurfiaeth y gwasanaethau a gomisiynir trwy gyfrwng y CLGau a'r CHau. Yn rhan o'i rôl, mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio yn aelod o Fforwm Amddiffyn Oedolion De Cymru; ac y mae Cydgysylltydd Amddiffyn y Cyhoedd yn aelod o Is-grŵp Hyfforddiant De Cymru ac Is-grŵp Hyfforddiant Pwyllgor Amddiffyn Oedolion Ardal RhCT. Mae gan y BILlA hefyd gynrychiolaeth ar Fforwm Diogelu Oedolion RhCT a'i is-grwpiau.

S17.5. Mae'r hyfforddiant a roddir i'r staff ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Darparu hyfforddiant Amddiffyn Plant lefelau I a II i bob ymarferydd cyffredinol, a chynnig hyfforddiant lefel III yn ogystal, a chynnig hyfforddiant lefel I i fferyllwyr gan ddefnyddio offer hyfforddi electronig.

- Hyfforddiant i ddeintyddion trwy'r CPS, GICC a'r Ddeoniaeth Ddeintyddol. Mae gwaith ar droed i ddatblygu hyfforddiant i optometryddion.
- Cyflenwi hyfforddiant lefel II mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol i gartrefi gofal/ nyrsio yn ardal RhCT.
- Darparu hyfforddiant ynglŷn ag Oedolion Agored i Niwed trwy e-ddysgu i bob practis ymarfer cyffredinol.
- Sesiynau i godi ymwybyddiaeth o Gam-drin Domestig.
- Sesiynau diweddaru ar amddiffyn plant i staff y BILlA.

S17.6. Neilltuir amser ar gyfer dwy sesiwn amddiffyn plant bob mis i ymarferydd cyffredinol y BILlA sydd â chyfrifoldeb am amddiffyn plant, ac y mae Cydgysylltydd Amddiffyn y Cyhoedd unswydd amser-llawn wedi ei benodi.

S17.7. Er bod y BILlA yn amlwg yn gwneud llawer o waith yn y maes hwn, prin oedd y dystiolaeth bod mecanweithiau monitro wedi eu sefydlu. Ni ddangoswyd, er enghraifft, bod y CLGau a'r CHau a gytunwyd gyda sefydliadau eraill yn cael eu monitro o ran cydymffurfiaeth; ac nid oedd systemau wedi eu sefydlu i sicrhau bod gwiriadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) neu ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (AOAN) wedi eu cwblhau. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILlA o **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr, ac yng ngoleuni'r materion y cyfeirir atynt uchod ystyriwn mai **Datblygol** yw'r BILlA hefyd ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/ Clinigol ar hyn o bryd.

Safon 18
Mae cyrff gofal iechyd wedi cynllunio a pharatoi ymateb trefnus i ddigwyddiadau ac argyfyngau a allai effeithio ar y ddarpariaeth arferol o wasanaethau, ac wedi ymarfer yr ymateb lle bo'n ofynnol.

S18.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S18.2. Mae gan y BILlA Gynllun Digwyddiadau Mawr sy'n nodi'r trefniadau a sefydlwyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol a'i staff ar gyfer ymateb i argyfwng neu ddigwyddiad mawr. Defnyddir y Cynllun hwn gan y Bwrdd Iechyd Lleol (BILlA) i

gyflawni ei gyfrifoldeb o gynllunio ar gyfer argyfyngau trwy sicrhau ymateb cydlynol o du'r GIG i unrhyw ddigwyddiad mawr neu argyfwng. Adolygir y Cynllun yn flynyddol ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac yn benodol i'r Cynghorydd Cynllunio rhag Argyfyngau Iechyd (CCRhAI). Rhoddir gwybod i'r aelodau bod y Cynllun wedi ei ddiweddaru gan gymryd i ystyriaeth y pwyntiau manwl sy'n codi o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 a'r rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig.

S18.3. Cefnogir y BILlA gan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, i baratoi ei gynlluniau ar gyfer delio â materion fel ffliw pandemig. Yn ychwanegol, mae gan y BILlA Gynllun Gweithredol Pandemig, a ddatblygwyd trwy gyfrwng Grŵp Cynllunio Ffliw Pandemig Rhondda Cynon Taf, sy'n cynnwys cynrychiolwyr Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf, Ymddiriedolaethau Ysbytai'r GIG, ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Heddlu De Cymru, a'r sector Gofal Sylfaenol. Yr ymarferion ffug diwethaf mewn perthynas â Chynllunio Pandemig oedd yr ymarferiad "Viper" ar 1 Rhagfyr 2006 a'r ymarferiad "Winter Willow" ar 19 Chwefror 2007

S18.4. Yr ymarferiad diwethaf ynglŷn â Chynllun Digwyddiadau Mawr BILlA RhCT oedd yr ymarferiad "Maximum Volume" a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2007. Roedd yr ymarferiad hwnnw yn ystyried y materion a fyddai'n codi pe symudid 25,000 o bobl i mewn ac yna trwy ardal De Cymru, gan roi sylw i'r gofynion o ran trafnidiaeth, cyfleusterau derbyn, llety a threfniadau dychwelyd. Cymerodd y Bwrdd iechyd Lleol ran mewn dau ymarferiad ffliw pandemig yn 2006/7, a bydd yn profi ei gynllun yn 2007/8.

S18.5. O ran parodrwydd i ymdopi ag argyfyngau cyffredinol, mae safleoedd RhPDM (Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr) wedi eu dynodi gan asiantaethau partner, ac y mae cynllun y BILlA yn cynnwys y dull o ymateb i ddigwyddiadau cemegol neu fiolegol. Achoswyd newid yn yr ymarfer o ganlyniad i dywydd garw yn ddiweddar, pan achosodd yr eira broblemau difrifol. Bydd y BILlA yn awr yn prynu offer hydwythedd busnes ar gyfer pob ymarferydd cyffredinol a fferyllfa, a fydd yn trosglwyddo data i'r BILlA yn ddyddiol, ac yn ei alluogi i weld pa safleoedd yr effeithir

arnynt ac i weithio i ddatrys unrhyw sefyllfa. Cyflwynir adroddiadau yn rheolaidd i'r Bwrdd ar ei gynllun digwyddiadau.

S18.6. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILlA o **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 19

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

a. bod pob risg sy'n gysylltiedig â chaffael a defnyddio dyfeisiau meddygol wedi eu lleihau i'r eithaf;

b. bod pob dyfais feddygol amldro wedi ei diheintio'n briodol cyn ei defnyddio, a bod y risgiau sy'n gysylltiedig â chyfleusterau a phrosesau diheintio yn cael eu rheoli'n effeithiol;

c. bod materion sy'n ymwneud ag ansawdd a diogelwch meddyginiaethau yn cael eu rheoli; ac

ch. bod y gwaith o atal, didoli, trin, cludo a gwaredu gwastraff yn cael ei reoli mewn ffordd sy'n lleihau i'r eithaf i y risgiau i iechyd a diogelwch y staff, y cleifion a'r cyhoedd, ac i diogelwch yr amgylchedd.

S19.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S19.2. Dangosodd y BILlA ei fod yn cymryd camau i ymgyrraedd at y safon hon trwy:

- Mecanweithiau a sefydlwyd ar gyfer monitro, gan gynnwys: ymweliadau ar gyfer monitro contractau, gydag archwiliadau dilynol o'r proffesiynau contractwyr unigol; y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol mewn perthynas â'r Systemau Ymddiriedolaeth; y Gweithgor Gofal Sylfaenol; archwiliadau penodol sy'n cael eu cyflawni a'u monitro gan y Pwyllgor Archwilio ac Effeithiolrwydd Clinigol. canlyniadau yr adroddir amdanynt wrth y Bwrdd trwy'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol; a'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau ynghyd â'r ymweliadau a gyflawnir yn rhan ohono.
- Y Grŵp Cynghori ar Bresgripsiynu sy'n goruchwylio polisi'r BILlA ar reoli meddyginiaethau a gwaith y tîm cynghori ar bresgripsiynu. Mae gan y BILlA hefyd Strategaeth drosfwaol ar Reoli Meddyginiaetha, ochr yn ochr â'r Strategaeth Llywodraethu Clinigol. Yn ychwanegol, mae'r BILlA hefyd yn cydweithio â'r ymddiriedolaethau lleol trwy'r Pwyllgor Gweithredol

Meddyginiaethau a Therapiwteg sy'n ystyried ceisiadau. Cyflwynir adroddiadau i'r Bwrdd hefyd ar y perfformiad o ran presgripsiynu.

- Contract gyda gwaredwr gwastraff, a negodir gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes (CGB) ar ran y BILIA. Yr CGB sy'n gyfrifol am archwilio'r gwasanaeth hwn.

S19.3. Ar sail yr ymateb a'r dystiolaeth ategol a gyflwynwyd gan y BILIA, rydym yn cytuno ag asesiad y BILIA o **Ymarferol** ar bob un o'r tair lefel.

Safon 20
Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati i wella'r gofal ar gyfer cleifion a boddhad y staff yn barhaus, gan ddefnyddio'r arferion gorau wrth reoli adnoddau dynol.

S20.1. Asesodd y BILIA ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S20.2. Gallai'r BILIA ddangos ei fod yn cymryd camau i ymgyrraedd at y safon hon trwy gyfrwng y canlynol:

- Mae'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth, lle y trafodir materion staff ac AD yn un o is-bwyllgorau'r Bwrdd.
- Adroddir wrth y Bwrdd am ganlyniadau'r Diwrnodau i Ffwrdd a drefnir i'r staff, ac y mae'r staff yn cyflwyno arferion staffio arloesol mewn Sesiynau Datblygu a gynhelir gan y Bwrdd.
- Mabwysiadu Polisïau AD Cymru Gyfan, megis y Polisi Rhannu Swyddi, Polisi Gweithwyr Unigol a'r polisi Gweithio Hyblyg.
- Grŵp cyswllt staff.

S20.3. Y Dirprwy Brif Weithredwr sy'n arwain ar faterion AD, ac y mae'r BILIA wedi gweithio i ddatblygu diwylliant o wella ansawdd a llywodraethu clinigol o fewn y sefydliad. Anogir y staff i werthfawrogi pwysigrwydd archwilio a gwerthuso. Trefnir rowndiau “Cynnig Syniadau” sy'n caniatáu i syniadau newydd gael eu profi gyda chefnogaeth y BILIA yn ogystal â chyllid. Mae nifer o enghreifftiau o welliannau yn y gwasanaethau a ysgogwyd gan y staff, megis:

- Y Tîm Presgripsiynu, a sylwodd, yn dilyn archwiliad, fod RhCT yn gwario swm sylweddol ar stribedi ar gyfer cleifion diabetig i fonitro glwcos gartref.
- Y Prosiect Dyddiadur Diabetig, lle bu Tîm Presgripsiynu'r BILlA yn cydweithio ag Ysbyty Brenhinol Morgannwg i baratoi rhaglen addysg a fu'n defnyddio dyddiaduron i wella'r ffordd y defnyddid y stribedi monitro glwcos.
- Y Prosiect Rhagbrawf Epilepsi, menter a ysgogwyd gan y Nyrsys Cymorth Gofal Sylfaenol, a sylwodd mai ychydig iawn o reolaeth a ddarperid ar gyfer yr afiechyd cronig hwn o fewn gofal sylfaenol. Bellach, maent yn cynnig gwasanaeth mewn rhai practisiau ac yn cydweithio â nyrsys i wella'u gwybodaeth yn y maes hwn.

S20.4. Yn ystod yr ymweliad arsylwi, cafwyd bod y staff yn teimlo bod modd iddynt ddylanwadu ar agenda'r BILlA, a bod y BILlA yn eu hannog i gynnig syniadau ar gyfer gwella. Roedd y staff yn credu hefyd bod mantais mewn bod yn BILl Addysgu, gan fod hynny yn anogaeth i gymryd agwedd o blaid dysgu. Rydym felly yn cytuno ag asesiad y BILlA o **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 21
Mae cyrff gofal iechyd:

a. yn cyflawni'r holl wiriadau angenrheidiol cyn cyflogi ac yn sicrhau bod yr holl staff proffesiynol cymwysedig, boed yn gyflogedig neu ar gontract, wedi eu cofrestru gan y cyrff proffesiynol perthnasol;

b. yn mynnu bod yr holl weithwyr proffesiynol a gyflogir yn cydymffurfio â'u codau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad; ac

c. mynd i'r afael pan fo angen â grwpiau lleiafrifol a dangynrychiolir.

S21.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ddatblygol** ar lefel y Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol.

S21.2. Gallai'r BILlA ddangos ei fod yn cymryd camau i ymgyrraedd at y safon hon trwy gyfrwng y canlynol:

- Y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth, sy'n trafod materion staff ac AD ac sy'n un o is-bwyllgorau'r Bwrdd.
- Y CLG gyda'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes (CGB) sy'n darparu swyddogaethau AD i'r BILlA .

- Ar gyfer cyflogi staff, sefydlwyd proses sy'n sicrhau bod pob gwiriad perthnasol wedi ei wneud ac y cynhelir archwiliadau i ganfod unrhyw fylchau yn yr wybodaeth a gedwir yn y ffeiliau.
- Polisïau AD megis y Polisi Recriwtio a Chadw a'r Polisi Rheoli Perfformiad.
- Codau Ymddygiad ar gyfer y staff.

S21.3. Mae'r Cyfarwyddwyr Meddygol a Nyrsio yn atebol yn broffesiynol am y gweithwyr proffesiynol clinigol sy'n gweithio yn y sefydliad ac am berfformiad y rheolwyr. Adroddir wrth y Bwrdd am unrhyw faterion cydraddoldeb sy'n codi, ac y mae'r Hyrwyddwr Cydraddoldeb yn aelod o'r Bwrdd. Mae monitro yn digwydd pan fo staff yn ymgeisio am swyddi gwag.

S21.4. Llwyddodd y BILlA i nodi adborth a gafwyd a gwersi a ddysgwyd o'r broses hon. Rydym felly yn cytuno ag asesiad y BILlA o **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol. Fodd bynnag, oherwydd diffyg tystiolaeth bod cofrestriadau proffesiynol yn cael eu gwirio'n rheolaidd, rydym o'r farn mai **Datblygol** hefyd yw'r BILlA ar y lefel Gorfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 22
Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff:

a. yn cael eu recriwtio a'u hyfforddi'n briodol a bod ganddynt y cymwysterau priodol ar gyfer y gwaith;

b. yn cymryd rhan mewn rhaglenni cynefino a rhaglenni hyfforddi gorfodol; ac

c. cymryd rhan mewn cynllun datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus.

S22.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymarferol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S22.2. Gallai'r BILlA ddangos ei fod yn ymgyrraedd at y safon hon trwy'r canlynol:

- Proses y Cynllun Datblygu Personol (CDP) a'r Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau (FfGS).
- Y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth

- Strategaeth Dysgu.
- Diffinnir yr anghenion hyfforddi trwy gyfrwng proses yr CDP a'r FfGS a chedwir cofnodion o'r hyfforddiant.

S22.3. Yn y maes Ymarfer Cyffredinol, mae nifer o ddangosyddion FfCA sy'n ymwneud â chymwyseddau'r staff , ac y mae'r Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol hefyd yn monitro rhai agweddau ar gymhwysedd y staff yn ystod yr ymweliadau datblygu ymarfer.

S22.4. Yn ystod yr ymweliad arsylwi, cawsom wybod bod y staff yn cael cyfleoedd i ddatblygu yn broffesiynol ac, ar y cyfan, wedi cael eu gwerthuso.

S22.5. Er bod ymateb y BILlA yn nodi sut y cofnodir hyfforddiant, ni roddwyd manylion llawn am broses gadarn i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddiant gorfodol. Rydym felly yn cytuno ag asesiad y BILlA o **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol, ond ystyriwn mai **Datblygol** hefyd yw'r BILlA ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr, gan mai prin oedd y dystiolaeth bod mecanweithiau adborth wedi eu sefydlu, na bod hyfforddiant wedi ei gynnig i'r staff Gofal Sylfaenol.

Safon 23
Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff yn cael cymorth gan:

a. prosesau sy'n caniatáu iddynt fynegi unrhyw bryderon, yn gyfrinachol a heb beryglu eu safle, ynghylch unrhyw agwedd ar gyflwyno gwasanaeth, triniaeth neu reolaeth; ac

b. rhaglenni datblygu sefydliadol a phersonol sy'n cydnabod cyfraniad a gwerth y staff

S23.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/ Clinigol ac yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S23.2. Gallai'r BILlA ddangos ei fod yn ymgyrraedd at y safon hon trwy gyfrwng y canlynol:

- Polisi Chwythu'r Chwiban ar gyfer y staff, sydd ar gael ar y wefan.

- Defnyddir y Grŵp Cyswllt Staff gan bob un o'r Cyfarwyddiaethau i wyntyllu eu pryderon yn ehangach
- Polisi ar Gofnodi Achosion Niweidiol a Pheryglon

S23.3. Mae Polisi “Bod yn Agored” y BILlA yn sicrhau bod y sefydliad cyfan yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymateb i unrhyw faterion a godir, ac y mae'r Gwasanaeth Cefnogi Gofal Sylfaenol yn darparu gwasanaeth cyngor a chefnogaeth i gontractwyr gofal sylfaenol. Diogelir cyfrinachedd yn y materion hyn trwy gyfyngu'r wybodaeth i'r rhai hynny mae'n ofynnol iddynt ei chael, a thrwy storio'r wybodaeth yn briodol.

S23.4. Rhoddodd y BILlA fanylion am y modd y mae'n cydnabod cyfraniad a gwerth y staff, trwy'r dyfarniad Buddsoddwyr mewn Pobl, Adborth mewn cysylltiad â'r CDP a gwaith y Safon Iechyd gorfforaethol.

S23.5.Rydym yn cytuno ag asesiad y BILlA o **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol a **Datblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr, ond credwn hefyd, am y rheswm a nodir uchod, mai **Datblygol** yw'r BILlA ar lefel y Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol.

Safon 24
Mae cyrff gofal iechyd yn cydweithio â phartneriaid gofal cymdeithasol ac eraill i fodloni anghenion iechyd eu poblogaeth drwy:

a. fod gweithlu sydd â'r gymysgedd briodol o sgiliau ac sy'n adlewyrchu'r gymuned yn gyffredinol; ac
b. sicrhau bod y gwasanaethau'n gwella'n barhaus drwy ddatblygu ffyrdd gwell o weithio.

S24.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S24.2. Mae Strategaeth IGCaLl y BILlA wedi ei seilio ar Asesiad Anghenion Iechyd cynhwysfawr. Bu'r BILlA yn gweithio mewn partneriaeth a'r sectorau gofal iechyd, gofal cymdeithasol, a'r sector gwirfoddol, cymunedol a busnes i'w ddatblygu. Yn ychwanegol, aed ati i nodi anghenion grwpiau cleientiaid penodol o ran iechyd a gofal cymdeithasol trwy gynnal adolygiadau gan y gwasanaethau ar y cyd, er

enghraifft mewn perthynas â Chamddefnyddio Sylweddau, Iechyd Meddwl Oedolion, a Gwasanaethau i Bobl Hŷn/ Anabl.

S24.3. Mae'r BILlA a'r awdurdod lleol yn cydweithio i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu a chyflwyno 'rôl gweithiwr hybrid' gyda'r bwriad o greu gorgyffyrddiad rhwng y gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd. Yn ddiweddar, mae'r BILlA hefyd wedi cychwyn Prosiect Meddyginiaethau Cartref, lle mae Fferyllwyr a Gweithwyr Gofal Cartref yn cydweithio i helpu unigolion i reoli eu meddyginiaethau yn eu cartrefi.

S24.4. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILlA o **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 25
Mae cyrff gofal iechyd yn defnyddio systemau gwybodaeth effeithiol a thechnoleg gwybodaeth integredig i gefnogi a gwella'r gofal ar gyfer cleifion, ac wrth gomisiynu a chynllunio gwasanaethau.

S25.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S25.2. Gallai'r BILlA ddangos ei fod yn ymgyrraedd at y safon hon trwy gyfrwng y canlynol:

- Gwahanol bolisïau a Gweithdrefnau ar gyfer Technoleg a Rheoli Gwybodaeth (TRhG).
- Grŵp Datblygu Gofal Sylfaenol sy'n delio ag unrhyw faterion ynglŷn â thechnoleg gwybodaeth integredig. Defnyddir gwybodaeth o'r practisiau i oleuo'r penderfyniadau, ac y mae'r grŵp yn adrodd yn uniongyrchol wrth y Bwrdd.
- Y Rheolwr Datblygu Gofal Sylfaenol sy'n arwain ar systemau TG yr ymarferwyr cyffredinol.
- Sefydlu Bwrdd Rhaglenni er mwyn cynnal dull corfforaethol o ddatblygu systemau.

- Prosiect Rheoli Atgyfeiriadau, i sicrhau bod gwybodaeth atgyfeirio yn cael ei hintegreiddio yn y prosesau cynllunio a chomisiynu. Nod y prosiect yw annog practisiau i gydweithio i ail-ddylunio gwasanaethau, gan leihau nifer yr atgyfeiriadau a dilyniannau.

S25.3. Cyflenwir hyfforddiant i'r staff gan ddarparwr y system pan osodir system neu feddalwedd newydd neu uwchraddedig, a cheir cymorth gan y BILlA ar gyfer unrhyw hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen. Mewn practisiau ymarfer cyffredinol, Rheolwr y Practis sy'n sicrhau bod y staff yn gyfarwydd â'r gwahanol systemau gwybodaeth.

S25.4. Defnyddir ymweliadau adolygu'r Fframwaith Canlyniadau Ansawdd (FfCA) i ddilysu'r data mewnbwn, a chynhelir cymariaethau ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn canfod unrhyw anghysondebau. Defnyddir adborth o'r Grŵp Defnyddwyr a'r Grŵp Rheolwyr Practis i wirio cyfanrwydd yr wybodaeth.

S25.5. Nid ydym yn cytuno ag asesiad y BILlA ac ystyriwn mai **Datblygol** yw'r BILlA ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr, gan fod y dystiolaeth o welliant parhaus a gwerthuso ledled y sefydliad yn annigonol.

Safon 26

Mae gan gyrff gofal iechyd brosesau effeithiol ar gyfer rheoli cofnodion, sy'n sicrhau:

a. bod y sefydliad, o'r foment y caiff cofnod ei greu nes iddo gael ei ddileu, yn diweddaru'r wybodaeth i ateb y diben gwreiddiol, ac yn dileu'r wybodaeth yn briodol pan na fo'i hangen mwyach arnynt; ac

b. bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n gyfrinachol.

S26.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S26.2 Gallai'r BILlA ddangos ei fod yn ymgyrraedd at y safon hon trwy gyfrwng y canlynol:

- Strategaeth a Pholisi ar Reoli Cofnodion

- Y Cyfarwyddwr Meddygol yw'r Ceidwad Caldicott, a'r Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol yw'r Swyddog Diogelu Data dynodedig.
- Y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth, sydd â'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a chynrychiolwyr o bob adran yn aelodau ohono.
- Mae nifer o gydrannau'r Ymweliadau FfCA yn ymwneud â materion rheoli cofnodion.

S26.3. Mae'r Rhestr Gyfeirio Cynefino Staff yn cynnwys materion llywodraethu gwybodaeth; a darperir copïau i'r staff o'r Llawlyfr Llywodraethu Gwybodaeth ac Arweiniad Arferion Da ynglŷn â Rhyddid Gwybodaeth. Bu'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth yn trafod archwiliadau a Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau) mewn perthynas â rheoli cofnodion, ac ni nodwyd unrhyw newidiadau penodol.

S26.4. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILlA o **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 27

Mae trefniadau llywodraethu ar sail arferion da wedi eu sefydlu, sydd:

a. yn cymhwyso egwyddorion llywodraethu corfforaethol a chlinigol cadarn;

b. yn sicrhau proses gadarn ar gyfer rheolaeth ariannol, at atebolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;

c. yn mynd ati i helpu'r holl staff i hybu gonestrwydd, gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd a'r egwyddor o fod yn agored ac i ddefnyddio adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

ch. yn mynd ati'n systematig i gynnal asesiadau risg a rheoli risg; ac

e. yn cael ei hintegreiddio ar draws yr holl gymunedau iechyd a rhwydweithiau clinigol.

S27.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S27.2. Gallai'r BILlA ddangos ei fod yn ymgyrraedd at y safon hon trwy gyfrwng y canlynol:

- Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol wedi eu sefydlu, trwy'r strwythurau ffurfiol o is-bwyllgorau, sef: y pwyllgorau Archwilio, Tâl a

Thelerau Gwasanaeth, a Llywodraethu Clinigol; a'r gweithgorau Partneriaethau Strategol, Datblygu Gofal Sylfaenol, Prescripsiynu, a Chyllid a Pherfformiad.

- Mae Grwpiau ar wahân ar gyfer Risgiau Clinigol a Risgiau Anghlinigol.
- Y Strategaeth Rheoli Risg.
- Sefydlwyd trefniadau atebolrwydd eglur gan y BILlA ar gyfer rheolaeth ariannol.
- Rhoddir y cynllun ariannol gerbron y Bwrdd yn flynyddol i'w gymeradwyo.
- Mae pob aelod o'r Bwrdd yn llofnodi yn ffurfiol i ddynodi eu bod yn cytuno i gydymffurfio â'r Cod Diffuantrwydd ac Atebolrwydd.
- Mae trefniadau cydweithio clòs a chyfarfodydd ar y cyd yn digwydd ledled Cymuned Iechyd Gogledd Bro Taf, ac y mae'r BILlA yn aelod o nifer o rwydweithiau clinigol.

S27.3. Mae swyddog enwebedig o bob adran yn aelod o'r Grŵp Risgiau Anghlinigol a'r Grŵp Gweithredol llywodraethu Clinigol, ac yn gyfrifol am ddarparu adborth i'w timau/ adrannau. Gall y staff godi unrhyw bryderon ynglŷn â llywodraethu clinigol mewn nifer o wahanol ffyrdd, megis trwy un o'r grwpiau risg neu trwy adrodd am ddigwyddiad.

S27.5. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILlA o **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol, ond ystyriwn mai **Datblygol** yn unig yw'r BILlA ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr, gan mai cyfyngedig oedd y dystiolaeth a'r enghreifftiau a gyflwynwyd o welliant parhaus.

Safon 28

Mae cyrff gofal iechyd:

a. yn sicrhau bod gwaith pob tîm a pob gwasanaeth clinigol yn dilyn egwyddorion llywodraethu clinigol;

b. yn gweithredu proses barhaus ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau clinigol; ac

c. yn sicrhau arweiniad ac atebolrwydd effeithiol gan y staff clinigol a'r rheolwyr.

S28.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S28.2. Gallai'r BILlA ddangos ei fod yn ymgyrraedd at y safon hon trwy gyfrwng y canlynol:

- Y Cyfarwyddwr Nyrsio a'r Cyfarwyddwr Meddygol yw'r cyd-arweinwyr Llywodraethu Clinigol yn y BILlA.
- Strategaeth a Chynllun Gweithredu Llywodraethu Clinigol sy'n cael eu hadolygu a'u monitro yn rheolaidd ac yr adroddir amdanynt wrth y Bwrdd.
- Y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol sy'n un o is-grwpiau'r Bwrdd.
- Gweithgorau'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol, sef: y Grŵp Gweithredol Llywodraethu Clinigol; y Grŵp Archwilio Clinigol ac Effeithiolrwydd; a'r Grŵp Cwynion.
- Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio a'r Cyfarwyddwr Meddygol yn cynrychioli'r BILlA ar Bwyllgorau Llywodraethu Clinigol y ddwy Ymddiriedolaeth.

S28.3. Mae'r staff yn ymgysylltu'n llawn â'r llywodraethu clinigol a'i egwyddorion, er enghraifft mewn sesiynau briffio i'r staff ar lywodraethu clinigol a thrwy aelodaeth o'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol a'i Weithgorau; mae'r cofnodion yn tystio i'r trafodaethau ynghylch gweithdrefnau clinigol a phrotocolau. Dyfynnwyd enghreifftiau gan y BILlA lle'r oedd y staff wedi gwella'r modd yr adroddir am ddigwyddiadau o fewn gofal sylfaenol ar wybodaeth a gofnodir ynglŷn â Chartrefi Nyrsio; ond nid oedd yr enghreifftiau yn dangos bod y gofal a roddir i'r cleifion wedi gwella o ganlyniad.

S28.4. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILlA o **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/ Clinigol, ond ni ellid casglu, ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, bod y profiad yn dda yn gyffredinol ym mhob maes, ac oherwydd hynny ystyriwn mai **Datblygol** yn unig yw'r BILlA ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

4.4. Iechyd y Cyhoedd

Safon 29
Mae cyrff gofal iechyd yn hybu, amddiffyn a gwella iechyd y gymuned a wasanaethir, ac yn lleihau anghydraddoldeb iechyd:

a. trwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles; ac

b. trwy sicrhau bod eu polisïau a'u harferion yn seiliedig ar asesiadau o angen a chyngor cadarn ar iechyd y cyhoedd.

S29.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S29.2. Gallai'r BILlA ddangos ei fod yn ymgyrraedd at y safon hon trwy gyfrwng y canlynol:

- Y Bwrdd Partneriaeth sydd â chyfrifoldeb am gyflawni a gwerthuso'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (IGCaLl) yn ardal RhCT.
- Mae'r Bwrdd Partneriaeth yn gweithredu ar y lefel strategol, a'i gyd-gadeiryddion yw Arweinydd y Cyngor a Chadeirydd y BILlA. Mynychir ei gyfarfodydd gan Brif Weithredwyr y ddau sefydliad, Prif Weithredwyr a Chadeiryddion y ddwy Ymddiriedolaeth GIG ynghyd ag amrediad o gynrychiolwyr o'r Cyngor, y maes Iechyd a'r sectorau gwirfoddol ac annibynnol.
- Islaw'r Bwrdd Partneriaeth, mae'r Grŵp Cynllunio Strategol a saith o Grwpiau Cyflawni, sef un ar gyfer pob thema o'r strategaeth; ac y mae i bob thema ei chynllun gweithredu.
- Mae Tîm Iechyd a Lles wedi ei sefydlu i gefnogi'r holl broses.
- Derbynnir cyngor ynglŷn ag Iechyd y Cyhoedd trwy'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (GICC) gan gynnwys y Cyfarwyddwr Lleol Iechyd y Cyhoedd.
- Cyflwynir y cyngor ynghylch iechyd y cyhoedd ar ffurf adroddiadau, sesiynau briffio a thrwy gymryd rhan mewn cyfarfodydd a rheoli digwyddiadau ac achosion gwirioneddol o afiechydon.

- Negodir cynllun gwaith y BILlA rhwng Prif Weithredwr BILlA a'r Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd lleol.

S29.3 Sefydlwyd y Grŵp Craffu ar gyfer Cydweithredu yn 2007, i fod yn gyfrifol am werthuso'r strategaeth IGCaLl. Mae'r grŵp yn dwyn ynghyd cynghorwyr, aelodau anweithredol o'r Bwrdd, y ddwy Ymddiriedolaeth GIG a chynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol.

S29.4. Mae'r cyngor a gafwyd ar iechyd y cyhoedd wedi helpu'r BILlA i reoli nifer o brosiectau hybu iechyd, datblygu ei ddull o foderneiddio gwasanaethau, rheoli materion gwleidyddol ddyrys ynglŷn â thirlenwi ac ymdopi â nifer o achosion o afiechydon.

S29.5. Datblygwyd y Strategaeth IGCaLl trwy broses o gynnwys ac ymgysylltu ag amrediad o randdeiliaid, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd a chleifion. Paratowyd y saith cynllun gweithredu thematig i fod o fudd i gleifion, ac arddangoswyd hwy yn ddiweddar, yn rhan o'r cyflwyniad buddugol am y Wobr 'Rhagoriaeth Cymru'. Yn ychwanegol, mae aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn gwasanaethu ar y gwahanol grwpiau cynllunio sy'n gweithredu fel grwpiau cyflawni ar gyfer saith thema'r strategaeth.

S29.5. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILlA o **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 30

Mae cyrff gofal iechyd:

a. yn rheoli raglenni systematig ar gyfer atal clefydau a hybu iechyd sy'n cynnwys staff, ac sy'n bodloni gofynion y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol, y cynlluniau cenedlaethol a'r blaenoriaethau o ran hybu iechyd ac atal clefydau; ac

b. yn ystyried yr holl bolisïau cyfredol ac arfaethedig a'r wybodaeth am faterion iechyd y cyhoedd wrth datblygu rhaglenni iechyd y cyhoedd, rhaglenni hybu iechyd a gwasanaethau atal, ac wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau.

S30.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S30.2. Gallai'r BILlA ddangos ei fod yn ymgyrraedd at y safon hon trwy gyfrwng y canlynol:

- Y blaenoriaethau ar gyfer gwaith hybu iechyd, a gynhwysir yn y Strategaeth IGCaLl. Mae saith o themâu, gan gynnwys Gwaith ac Iechyd; Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol; a Phlant a Phobl Ifanc. Seilir y rhaglenni ar egwyddorion Ottawa.
- Disgwylir y bydd y model sydd yn awr yn cael ei ddatblygu ar gyfer Rheoli Afiechydon Cronig yn sail i ddull cyson a holistig o ail-ddylunio gwasanaethau ac o ddatblygu llwybrau gofal. Drafft cynnar o'r model sydd ar gael ar hyn o bryd.
- Sefydlwyd systemau i alluogi'r rhaglenni atal afiechydon a hybu iechyd i gwrdd â gofynion y Fframweithiau Gwasanaeth a'r canllawiau cenedlaethol.

S30.3 Yn ychwanegol, darparodd y BILlA restr o'r prosiectau sydd wedi eu sefydlu, ac a werthusir yn eu tro yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfweliadau â theuluoedd ynglŷn â gordewdra.
- Nifer o ymyriadau gweithgarwch corfforol
- Gwaith ar atal anafiadau, gan gynnwys hyfforddiant diogelwch i blant trwy gyfrwng Cychwyn Cadarn.
- Cyfweliadau mewn ysgolion ynghylch materion megis ysgolion iach, neu iechyd meddwl ysgol gyfan

S30.4 Rheolir a chefnogir rhai prosiectau hefyd trwy gyfrwng Tîm Iechyd y Cyhoedd Lleol y GICC. Yn eu plith mae prosiectau i sgrinio rhai sydd mewn perygl o gael clefyd y galon; a chamau adsefydlu ac ymyriadau teuluol ynglŷn â gordewdra.

S30.5. Gall cleifion ac aelodau'r cyhoedd ddylanwadu ar y broses hon trwy fecanweithiau megis y Grwpiau Iechyd a Lles Cymunedau yn Gyntaf; y Fforwm Cleifion; a'r Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, ac ar ôl cwblhau'r prosiectau, bydd safbwyntiau'r defnyddwyr yn rhan o'r broses gwerthuso.

S30.6. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILlA o **Ymarferol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr ond yn ystyried mai **Datblygol** ydyw o hyd ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/ Clinigol. Bydd cwblhau'r cynlluniau mewn perthynas â Rheoli Afiechydon Cronig, ynghyd â gwerthuso'r prosiect a restrir yn symud y BILlA ymlaen i Ymarferol.

Safon 31

Mae cyrff gofal iechyd:

- *a. yn rhoi cynlluniau ar waith i ddarparu adnoddau ar gyfer amddiffyn y cyhoedd os bydd achosion sylweddol o glefyd heintus yn digwydd, neu argyfwng iechyd arall;*
- *b. yn nodi ac yn mynd i'r afael â phroblemau difrifol ym maes iechyd y cyhoedd ac anghydraddoldebau iechyd, gyda'r Byrddau Iechyd Lleol yn arwain;*
- *c. yn gweithredu rhaglenni effeithiol i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd; ac yn amddiffyn eu poblogaethau rhag peryglon a nodwyd eisoes a pheryglon newydd i iechyd; ac*
- *ch. yn annog ac yn helpu unigolion i gydnabod bod ganddynt gyfrifoldeb i edrych ar ôl eu hiechyd a'u lles eu hunain.*

S31.1. Gweler yr ymateb i Safon 18

Safon 32

Mae cyrff gofal iechyd yn cyflawni'r Safon Iechyd Gorfforaethol, sef y marc ansawdd cenedlaethol ar gyfer iechyd yn y gweithle, ac yn symud i lefel uwch ar ôl cael asilasesiad.

S32.1. Asesodd y BILlA ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/ Clinigol ac yn **Arweiniol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S32.2. Enillodd y BILlA Wobr Aur gyferbyn â'r Safon Iechyd Gorfforaethol yn Ebrill 2007. Mae AGIC wedi cytuno ar ddull cyson o sgorio ar gyfer y safon hon, ac felly rydym yn asesu'r BILlA yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Rhoddir crynodeb yn Atodiad 2 o'r lefelau aeddfedrwydd ar gyfer pob un o'r 32 safon, fel y'u haseswyd gan Fwrdd Iechyd Lleol Addysgu Rhondda Cynon Taf yn ei hunanasesiad, a hefyd gan AGIC ar ôl profi a gwerthuso.

5. Y Camau Nesaf

5.1. Mae'n ofynnol bod BILIA Rhondda Cynon Taf yn cyhoeddi Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd erbyn 30 Tachwedd 2007. Cytunir ar y cynllun hwn gyda Swyddfa Ranbarthol Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, a fydd yn monitro'r modd y'i gweithredir, yn rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad a sefydlwyd ar gyfer GIG Cymru. Rhoddir y cynllun ar gael ar wefan y BILIA.

5.2. Dros y misoedd nesaf, bydd AGIC yn cydweithio â rhanddeiliaid i gywreinio a gwella'r offeryn asesu ar gyfer y dyfodol, ac i alinio'r broses hunanasesu Safonau Gofal Iechyd â'r gylchred ariannol flynyddol.

5.3. Cyhoeddir adroddiad Cymru-gyfan yn ystod Tachwedd 2007, a fydd yn cyfuno canfyddiadau o'r adroddiadau unigol i roi trosolwg ar y sefyllfa ledled Cymru. Bydd hynny'n tanlinellu'r themâu a'r meysydd risg allweddol a ddaeth i'r amlwg o ganlyniad i'r broses asesu Safonau Gofal Iechyd.

Atodiad 1

	Ymwybodol	Ymatebol	Datblygol	Ymarferol	Arweiniol
Corfforaethol	Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r materion i fynd i'r afael â hwy ond ni allant ddangos penderfyniadau/ camau i fynd i'r afael â hwy. .	Mae'r Bwrdd yn cydnabod y materion allweddol ac wedi nodi dewisiadau sydd wedi'u blaenoriaethu, er nad oes tystiolaeth o gyfeiriad strategol. .	Mae'r Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion allweddol trwy ddatblygu cynlluniau strategol sydd â thystiolaeth o arferion da ledled y sefydliad.	Mae'r agenda strategol yn cael ei datblygu a'i monitro gan y Bwrdd gyda thystiolaeth sylweddol o welliant parhaus ledled y sefydliad.	Mae'r Bwrdd yn arwain yr agenda strategol trwy roi arferion arloesol ar waith a rennir ledled y sefydliad a thu hwnt gydag eraill, gan alluogi cynaliadwyedd hirdymor i gael ei wireddu.
Gweithredol	Mae ymwybyddiaeth o'r materion i fynd i'r afael â hwy, ond ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau i fynd i'r afael â hwy.	Mae ymwybyddiaeth o'r materion allweddol i fynd i'r afael â hwy a nodwyd amrywiaeth o ddewisiadau er mwyn mynd i'r afael â hwy	Mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion allweddol gyda thystiolaeth o weithredu ymarferol ledled y sefydliad.	Mae cynlluniau sydd wedi'u datblygu'n dda'n cael eu rhoi ar waith ledled y sefydliad sy'n mynd i'r afael â'r materion allweddol gyda thystiolaeth o werthuso a meincnodi sy'n arwain at welliant parhaus.	Mae tystiolaeth o arferion arloesol, a rennir ledled y sefydliad a thu hwnt gydag eraill. Maent yn datblygu eu dulliau ymhellach i sicrhau gwelliant cynaliadwy hirdymor.
Profiad y Defnyddiwr	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gyffredinol wael ac ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Nid yw profiad yr unigolyn/unigolion yn dda yn gyffredinol er y datblygwyd dulliau o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gwella mewn sawl maes, er nad yw hyn yn gyson ledled y sefydliad hyd yn hyn.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gyffredinol dda ym mhob maes.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn rhagorol yn gyffredinol a gall y gwasanaeth ddangos tystiolaeth eglur o arferion da, y gellir eu rhannu.

Atodiad 2

Crynodeb o'r Lefelau Aeddfedrwydd fesul Safon

Allwedd

A	Arweiniol
B	Ymarferol
C	Datblygol
Ch	Ymatebol
D	Ymwybodol

Safon 1

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	**B**	↔	**B**
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	**C**	↔	**C**
Profiad y Defnyddiwr	**B**	↓	**C**

Safon 2

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	**C**	↔	**C**
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	**C**	↔	**C**
Profiad y Defnyddiwr	**C**	↔	**C**

Safon 3

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	**C**	↔	**C**
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	**C**	↓	**Ch**
Profiad y Defnyddiwr	**C**	↓	**Ch**

Safon 4

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	**B**	↔	**B**
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	**B**	↔	**B**
Profiad y Defnyddiwr	**C**	↔	**C**

Safon 5

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	C	⇔	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	⇔	C
Profiad y Defnyddiwr	C	↓	Ch

Safon 6

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↓	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	↓	Ch
Profiad y Defnyddiwr	B	↓	Ch

Safon 7

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	C	⇔	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	⇔	C
Profiad y Defnyddiwr	C	⇔	C

Safon 8

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↓	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↓	C
Profiad y Defnyddiwr	B	↓	C

Safon 9

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	C	↓	Ch
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	↓	Ch
Profiad y Defnyddiwr	C	↓	Ch

Safon 10

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	C	⇔	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	⇔	C
Profiad y Defnyddiwr	C	⇔	C

Safon 11

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↓	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	↔	C
Profiad y Defnyddiwr	C	↔	C

Safon 12

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↓	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↓	C
Profiad y Defnyddiwr	C	↔	C

Safon 13

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	C	↓	Ch
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	↓	A
Profiad y Defnyddiwr	C	↓	A

Safon 14

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↓	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↔	B
Profiad y Defnyddiwr	B	↓	C

Safon 15

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↓	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↓	C
Profiad y Defnyddiwr	B	↓	C

Safon 16

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	C	↑	B
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↓	C
Profiad y Defnyddiwr	B	↔	B

Safon 17

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↓	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↓	C
Profiad y Defnyddiwr	C	↔	C

Safon 18

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↔	B
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↔	B
Profiad y Defnyddiwr	B	↔	B

Safon 19

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↔	B
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↔	B
Profiad y Defnyddiwr	B	↔	B

Safon 20

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↔	B
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↔	B
Profiad y Defnyddiwr	B	↔	B

Safon 21

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↓	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	↔	C
Profiad y Defnyddiwr	B	↓	C

Safon 22

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	C	↔	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↓	C
Profiad y Defnyddiwr	B	↓	C

Safon 23

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↔	B
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↓	C
Profiad y Defnyddiwr	C	↔	C

Safon 24

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	C	↔	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	↔	C
Profiad y Defnyddiwr	C	↔	C

Safon 25

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↓	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↓	C
Profiad y Defnyddiwr	B	↓	C

Safon 26

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	C	↔	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	↔	C
Profiad y Defnyddiwr	C	↔	C

Safon 27

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↔	B
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↓	C
Profiad y Defnyddiwr	B	↓	C

Safon 28

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↔	B
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↔	B
Profiad y Defnyddiwr	B	↓	C

Safon 29

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↔	B
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↔	B
Profiad y Defnyddiwr	B	↔	B

Safon 30

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↓	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↓	C
Profiad y Defnyddiwr	B	↔	B

Safon 31

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Amh		
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	Amh		
Profiad y Defnyddiwr	Amh		

Safon 32

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↔	B
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↔	B
Profiad y Defnyddiwr	A	↓	B

Atodiad 3

Crynodeb o'r Aeddfedrwydd ar y Lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr






Sgoriau Aeddfedrwydd ar y Lefel Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol
Ymwybodol
Ymatebol
Datblygol
Ymarferol
Arweiniol


Sgoriau Aeddfedrwydd ar Lefel Profiad y Defnyddiwr
Ymwybodol
Ymatebol
Datblygol
Ymarferol
Arweiniol


Cytuno/ Anghytuno â Sgôr BILIA
1%
0%
44%
55%
AGIC yn cytuno â sgôr y BILIA
AGIC yn anghytuno - marcio BILIA i lawr
AGIC yn anghytuno - marcio BILIA lan

Atodiad 4

Geirfa Allweddol

Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru – sy'n cynghori'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar reolaeth strategol meddyginiaethau a phresgripsiynu.

cerdyn sgorio cytbwys - system reoli sy'n darparu model y gall sefydliad ei ddefnyddio i egluro ei weledigaeth a'i strategaeth a'u trosi yn weithredoedd. Mae'n cefnogi gwelliant parhaus ym mherfformiad y sefydliad

Gwarcheidwad Caldicott – uwch glinigwr ym mhob sefydliad GIG sy'n gyfrifol am weithredu agweddau ar adroddiad Caldicott, a oedd yn adolygu'r modd y diogelir ac y defnyddir gwybodaeth am gleifion.

llwybr gofal – cyfres ddiffiniedig o gamau triniaeth a gofal, sydd wedi ei chynllunio i ddiwallu anghenion penodol claf unigol.

archwiliad clinigol – ymarferiad gan weithwyr proffesiynol iechyd i fesur a gwerthuso pa mor bell y maent yn bodloni'r safonau a osodwyd ar gyfer eu gwasanaeth.

llywodraethu clinigol – fframwaith atebolrwydd sy'n pennu bod sefydliadau GIG yn atebol am wella ansawdd eu gwasanaethau yn barhaus ac am ddiogelu safonau gofal uchel.

rhwydweithiau clinigol – grŵp o wasanaethau sy'n cydweithio ar draws terfynau sefydliadau i ddarparu gwell gofal i gleifion.

canlyniad clinigol – effaith triniaeth o ran ei dylanwad ar iechyd neu les unigolyn.

Cyngor Iechyd Cymunedol (CIC) – cyrff di-elw o fewn cymunedau sy'n ymwneud â hybu iechyd, eiriolaeth a pholisi. Sefydlwyd y CICau ym 1992, er mwyn cryfhau'r rhan a chwaraeir gan gymunedau wrth ddiffinio polisïau gwladol a lleol sy'n effeithio ar argaeledd ac ansawdd gofal iechyd. Y CICau sy'n cynrychioli buddiant y cyhoedd yn y GIG, ac y mae hawl statudol ganddynt i fynnu cael gwneud sylwadau ar unrhyw newidiadau ym maes iechyd o fewn eu hardal.

Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) – asiantaeth weithredol a sefydlwyd i helpu sefydliadau i wneud penderfyniadau recriwtio diogel trwy wella'u mynediad

at wybodaeth o gofnodion troseddol. Mae'r CRB yn helpu cyflogwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i adnabod ymgeiswyr a allai fod yn anaddas ar gyfer mathau penodol o waith, yn enwedig cyswllt â phlant neu aelodau eraill o'r gymdeithas sy'n agored i niwed.

diogelu data – gofyniad ar gyrff cyhoeddus ac eraill i weithredu'n gyfrifol wrth reoli data personol. Ymdrinnir â chyfrifoldebau o'r fath yn Neddf Diogelu Data 1998 ac yn Neddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990, gyda'r nod o ddiogelu data a gedwir am unigolion.

Cynllun Oes – mae'n nodi gweledigaeth o ddyfodol y gwasanaethau iechyd yng Nghymru, ynghyd â strategaeth 10 mlynedd ar gyfer ei gwireddu. Mae'r strategaeth yn cynnwys tri fframwaith strategol, pob un i barhau am oddeutu tair blynedd, sef: Fframwaith 1 (2005-2008) Ailgynllunio Gofal Iechyd; Fframwaith 2 (2008-2011) Safonau Uwch; a Fframwaith 3 (2011-2014) Gwasanaethau o Safon Fyd-eang.

Safonau Gofal Iechyd – fframwaith cyffredin o safonau gofal iechyd a gyhoeddwyd ym Mai 2005 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi ymdrechion y GIG a'i sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol, prydlon o safon uchel ar draws yr holl leoliadau gofal iechyd.

rheoli heintiau – cyfres o weithdrefnau i atal heintiau rhag lledaenu a fydd yn cynnwys, er enghraifft, golchi dwylo, defnyddio offer di-haint, etc.

Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) – cyrff statudol sy'n gyfrifol am weithredu strategaethau i wella iechyd y boblogaeth leol, sicrhau a darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol, a sicrhau gwasanaethau gofal eilaidd.

Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) – cyrff hunanlywodraethol o fewn y GIG sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r Ymddiriedolaethau'n cyflogi amrediad llawn o weithwyr proffesiynol gofal iechyd, gan gynnwys meddygon, nyrsys, dietegwyr, ffisiotherapyddion, etc. Yr ymddiriedolaethau aciwt sy'n darparu gwasanaethau meddygol a llawfeddygol, fel rheol mewn ysbytai, tra bo'r ymddiriedolaethau cymunedol yn darparu gwasanaethau iechyd lleol, fel rheol yn y gymuned, megis nyrsys ardal, ciropodyddion, etc. Mae ymddiriedolaethau cyfunedig yn darparu gwasanaethau cymunedol ac aciwt o dan yr un tîm rheoli.

Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) – awdurdod iechyd arbennig sy'n darparu canllawiau i'r GIG ac i gleifion ar feddyginiaethau, offer meddygol a gweithdrefnau clinigol.

Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) – awdurdod iechyd arbennig a grëwyd yng Ngorffennaf 2001 i gydgysylltu ymdrechion y wlad gyfan i

gofnodi ac, yn bwysicach, i ddysgu oddi wrth y camgymeriadau a'r problemau sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion.

Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (GICCC) - mae'n cyflwyno amrediad llawn o wasanaethau iechyd y cyhoedd, gyda'r nod o wella iechyd a lles pobl Cymru a lleihau anghydraddoldebau iechyd; amddiffyn rhag afiechydon a pheryglon iechyd presennol a newydd, a rhai a all ymddangos; a chyfrannu at wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) – canllawiau i'r gwasanaeth iechyd ar sut i reoli a thrin mathau penodol o afiechydon a salwch.

Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd (PPI) – strategaeth a gynlluniwyd er mwyn sicrhau bod barn a safbwyntiau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r cyhoedd yn cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Rhaglen Arweiniad Clinigol Coleg Brenhinol y Nyrsys (RCN) – rhaglen sy'n sicrhau y neilltuir amser er mwyn caniatáu i nyrsys arsylwi ar y gofal a'r gwasanaethau a ddarperir, a chyfweld cleifion ynglŷn â'u gofal. Y nod yw galluogi nyrsys i ddatblygu a chywreinio'u galluoedd arweinyddol, gwella'u sgiliau tîm a threfniadol a chanolbwyntio ar anghenion y cleifion.

Datganiad Rheolaeth Fewnol – datganiad ynghylch trefniadau cyffredinol y sefydliad GIG ar gyfer cael sicrwydd y rheolir y prif risgiau o fewn y sefydliad yn effeithiol.

Bwrdd yr Ymddiriedolaeth – grŵp o bobl sydd, trwy statud, yn gyfrifol am y penderfyniadau strategol a'r penderfyniadau polisi mawr ym mhob Ymddiriedolaeth GIG. Mae Bwrdd nodweddiadol yn cynnwys cadeirydd lleyg, pum aelod arall lleyg, Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth a Chyfarwyddwyr Gweithredol.

Cronfa Risg Cymru (WRP) – cynllun hunan-sicrhau cilyddol ar gyfer yr holl gyrff iechyd yng Nghymru. Mae'r Gronfa hefyd yn cefnogi diogelwch y cleifion a'r staff, trwy annog a chefnogi perfformiad da wrth reoli ac asesu risgiau, trwy fesur gyferbyn â safonau penodedig.